

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DYDDIAD CYHOEDDI:
21/07/2022

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22

Adroddiad Technegol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80364-567-4

Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22

Adroddiad Technegol

Hanes fersiynau:

21/07/2022 Cyhoeddi fersiwn 1

26/01/2024 Mae fersiwn 2 yn cynnwys diwygiadau i nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn gyffredinol, ac yn ôl awdurdod lleol, yn ogystal â nifer y cyfeiriadau anghymwys, yn sgil darganfod gwall prosesu data. Mae'r diwygiadau yn arwain at newidiadau i gyfraddau ymateb yr arolwg ar gyfer nifer o awdurdodau lleol, ac yn gyffredinol. Roedd y gyfradd ymateb gyffredinol a adroddwyd yn flaenorol yn 42.3% ac mae wedi'i diwygio i 41.8%.

Awduron:

Dani Evans, Elena Stylianopoulou Swyddfa Ystadegau Gwladol

Barn yr awduron a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chris McGowan

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: arolygon@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg	4
	Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22	4
	Strwythur yr adroddiad	8
2.	Samplu	9
	Dyluniad y sampl	9
	Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn)	10
	Trefnu'r Sampl yn sypiau a'u dyrannu	13
	Dewis anheddau, cartrefi ac unigolion	14
3.	Cynnwys a datblygiad yr holiadur	16
	Trosolwg o'r holiadur	16
	Cynnwys a datblygiad yr holiadur	17
	Rhaglennu a phrofi'r holiadur	18
	Cyfieithu i'r Gymraeg	20
	Amseriadau cyfweliadau	21
	Newidiadau i sript holiadur Blaise	24
4.	Gwaith maes	27
	Recriwtio cyfwelwyr	27
	Briffio cyfwelwyr	28
	Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd	28
	Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau	30
	Dogfennau gwaith maes	33
	Tudalennau gwe am yr arolwg	35
	Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill	36
	Y broses o gysylltu â chyfeiriad a samplwyd	37
	Canlyniadau samplau	39
	Sampl a sicrhawyd	46
	Camau i unioni'r ymateb isel	48

Canlyniadau'r Treial Ar-lein	48
5. Prosesu ac allbynnau data	50
Troï achosion cyfweiliadau yn set ddata.....	50
Codio a golygu data	51
Newidynnau deilliedig.....	52
Allbynnau data.....	52
Argaeledd data	53
6. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi	53
Pwysoliadau dyluniad	54
Graddnodi pwysoliadau	55
Pwysoli'r treial ar-lein.....	63
Effeithiau a ffactorau dyluniad	63
7. Atodiadau	71
Atodiad A: Grid Kish	72
Atodiad B: Manyleb is-samplu	73
Atodiad C: Amseriadau'r arolwg	74
Atodiad D: Rhaglythyr Llywodraeth Cymru.....	76
Atodiad E: Taflen diben	78
Atodiad F: Cerdyn post A5 cyflwyno cyfwelydd	80
Atodiad G: Cerdyn KtN/Galwais heibio heddiw	81
Atodiad H: Cerdyn apwyntiad	82
Atodiad I: Llythyr atgoffa.....	83
Atodiad J: Llythyr trosi	85
Atodiad K: Taflen llinell gymorth	87
Atodiad L: Siart lif cysylltu data.....	89
Atodiad M: Newidynnau Deilliedig ar gyfer y Set Ddata Derfynol	90
Atodiad N: Pwysoliadau a luniwyd ar gyfer data terfynol 21-22.....	101
Atodiad O: Disgrifiadau o godau canlyniadau.....	103

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Nifer y cyfeiriadau a gynhwyswyd yn y brif sampl yn ôl ALI	13
Tabl 2.2 Cywirdeb y dull dewis pen-blwydd nesaf.....	16
Tabl 4.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg*	28
Tabl 4.2: Canran y cyfweliadau yn ôl pob dull o gasglu rhifau ffôn	31
Tabl 4.3: Cyfradd ymateb yn ôl y dull o gael rhif ffôn	32
Tabl 4.4: Deunyddiau'r arolwg	34
Tabl 4.5: Iaith y cyfweliad.....	37
Tabl 4.6: Canlyniadau samplau i'r holiadur dros y ffôn ar lefel genedlaethol yn ôl grŵp treialu	41
Tabl 4.7: Cyfraddau canlyniadau samplau lefel uchel i'r holiadur dros y ffôn ar lefel awdurdod lleol a grŵp treialu.....	44
Tabl 4.8: Cyfweliadau a sicrhawyd fesul chwarter	46
Tabl 4.9: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd yn ôl ALI (yn nhrefn y gyfradd ymateb)	47
Tabl 4.10 Nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r adran dros y ffôn a'r adran ar-lein.....	49
Tabl 6.1: Amcanestyniadau o boblogaeth breswyl 2020 yn ôl oedran a rhyw.....	60
Tabl 6.2: Amcanestyniadau o boblogaeth breswyl 2020 yn ôl oedran ac Awdurdod Lleol...	62
Tabl 6.3: Amcanestyniadau o gyfansoddiad cartrefi 2020	Error! Bookmark not defined.
Tabl 6.4: Effeithiau dylunio a meintiau sampl effeithiol	Error! Bookmark not defined.
Tabl 6.5: Effeithiau dyluniad, ffactorau dyluniad a chyfyngau hyder ar gyfer amrywiaeth o'r amcangyfrifon yn arolwg 2021-22	Error! Bookmark not defined.

Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Hyd cyfweliadau dros y ffôn ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau*.....	22
Ffigur 3.2: Hyd cyfweliadau ar-lein ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau	22
Ffigur 3.3: Dosbarthiad hyd cyfweliadau dros y ffôn mewn munudau*	233
Ffigur 3.4: Dosbarthiad hyd cyfweliadau ar-lein mewn munudau.....	24
Ffigur 4.1: Canrannau'r sampl a ddewiswyd lle y defnyddiwyd "Cnocio i wthio"	31

Rhestr termau

Term	Diffiniad
ALI	Awdurdod lleol
Arolwg	Arolwg Cenedlaethol Cymru
Cenedlaethol	
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
Blaise	Statistics Netherland Blaise Enterprise 4.8
CAPI	Cyfweliadau personol â chymorth cyfrifiadur
CASI	Hunangyfweliadau â chymorth cyfrifiadur
CD	Cenedlaethau'r Dyfodol (is-sampl)
FWMT	Adnodd rheoli gwaith maes
HRP	Person Cyswllt y Cartref
IM	Rheolwr cyfwelwyr
KtN	Cnocio i wthio
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
NISRA	Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon
NSDEC	Pwyllgor Moeseg Data yr Ystadegydd Gwladol
PAF	Ffeil Cyfeiriadau Cod Post y Post Brenhinol
PC	Practis Cyffredinol (is-sampl)
PCCD	Practis Cyffredinol Cenedlaethau'r Dyfodol (is-grŵp)
SPSS	Pecyn Ystadegol – IBM SPSS Statistics
SYG	Swyddfa Ystadegau Gwladol

1. Cyflwyniad a throsolwg o'r arolwg

- 1.1 Paratowyd fersiwn interim o'r adroddiad hwn cyn diwedd blwyddyn yr arolwg er mwyn iddo fod ar gael ochr yn ochr â Gwahoddiad i Dendro'r Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2023 ymlaen. Erbyn hyn, mae'r adroddiad hwn sydd wedi'i ddiweddarau yn cwmpasu data o flwyddyn arolwg 2021-22 yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cyfraddau ymateb terfynol a DEFF/DEFTs.
- 1.2 Arolwg a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru yw'r Arolwg Cenedlaethol, a gaiff ei gynnal ar hyn o bryd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi cynnwys cwestiynau arolwg gan dri chorff a noddir gan Lywodraeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru).

Trosolwg o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22

- 1.3 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi bod yn destun newidiadau sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf, o gyfathrebu wyneb yn wyneb i gyfathrebu dros y ffôn, dulliau dewis newydd ar gyfer y person yn y cartref, nifer cynyddol o newidiadau i holiaduron a ffyrdd o gyflwyno data ac, yn fwy diweddar, y broses o dreialu elfen ar-lein.
- 1.4 Roedd chweched flwyddyn yr Arolwg Cenedlaethol, a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), yn rhedeg rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 yn cynnwys cynnal cyfweiliadau â phobl 16 oed a hŷn yn seiliedig ar sampl o gyfeiriadau preswyl ledled Cymru a ddewiswyd ar hap. Rhwng mis Ebrill a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd 12,580 (r)¹ o gyfweiliadau, gan ragori ar y targed o 12,000 ar gyfer blwyddyn lawn yr arolwg.
- 1.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn gan gyfweilwyr maes SYG. Hyd cymedrig y cyfweiliad dros y ffôn oedd 32.3 munud ar gyfartaledd, a hyd canolrifol y cyfweiliad hwnnw oedd 34 munud.
- 1.6 Roedd cyfweiliadau ar-lein yn rhan o'r treial ar-lein. Hyd cymedrig y cyfweiliad ar-lein oedd 15.5 munud, a hyd canolrifol y cyfweiliad hwnnw oedd 13.2 munud.

¹ 26 Ionawr 2024: roedd cyfanswm y cyfweiliadau a gynhaliwyd a adroddwyd yn flaenorol yn 12,576

1.7 Roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfanswm o 50 o brif fodiwlau. Roedd y rhain wedi'u dylunio i gwmpasu'r amrywiaeth o bynciau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi. Cafodd rhai pynciau eu his-samplu, a ganiataodd i ni gasglu amcangyfrifon cadarn ar lefel genedlaethol o hyd. Roedd yn ddefnydd effeithiol o amser yr arolwg hefyd. Yn eu plith roedd y canlynol:

- iechyd (e.e. deiet, yfed alcohol, ysmegu, gweithgarwch corfforol, apwyntiadau deintyddol ac ysbyty, beichiogrwydd, BMI, salwch hirdymor, gofal llygaid, nam ar y clyw, a theithio llesol)
- addysg plant, dyheadau addysgol, gweithgarwch corfforol plant a hawliau plant
- hyfforddiant, cyflogaeth a gwirfoddoli (e.e. datblygu sgiliau, cymorth, a rhwystrau i waith)
- digwyddiadau celfyddydol (e.e. presenoldeb, cyfranogiad, y Gymraeg, rhwystrau ac agweddau)
- gweithgareddau chwaraeon (e.e. cyfranogiad, galw)
- awdurdodau lleol a chynghorau
- defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a boddhad gyda gwasanaethau cyhoeddus
- amddifadedd materol, credyd cynhwysol, tlodi bwyd
- cydlyniant cymunedol, diogelwch, ansawdd yr amgylchedd lleol, a sŵn
- barn ar newid yn yr hinsawdd
- llesiant ac unigedd
- defnyddio'r Gymraeg
- treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, ac archifau
- defnyddio'r rhyngrwyd a sgiliau o ran y rhyngrwyd
- anifeiliaid anwes

1.8 Gellir gweld yr union gwestiynau naill ai yn holiadur 2021-22 neu mewn chwiliwr cwestiynau rhyngweithiol yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru: holiaduron | LLYW.CYMRU](#).

- 1.9 Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ionawr 2022, cynhaliwyd treial ar-lein. Dyma lle y gofynnwyd i rai o'r sampl (tua 6,000 o gyfeiriadau yn y sampl a ddewiswyd) gwblhau'r holiadur dros y ffôn ac yna holiadur ar-lein. Roedd yn rhaid cwblhau'r ddwy adran er mwyn cael y cymhelliad o £15. Mae hyn wedi ein galluogi i gasglu data ar bynciau sy'n anodd gofyn amdanynt dros y ffôn: rhai sy'n sensitif iawn, rhai y mae dymunoldeb cymdeithasol yn cael mwy o effaith arnynt (pobl yn tueddu i roi'r ateb y credant y dylent ei roi i'r cyfwelydd) a rhai oherwydd hyd y cwestiynau a'r opsiynau ymateb.
- 1.10 Roedd y gyfradd ymateb i'r adran dros y ffôn yn is o lawer ar gyfer y rhai y gofynnwyd iddynt gwblhau'r adran dros y ffôn a'r adran ar-lein (41.3%), o gymharu â'r rhai y gofynnwyd iddynt gwblhau'r adran dros y ffôn yn unig (43.5%). Yn ogystal, aeth 89.8% o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur dros y ffôn ymlaen i gwblhau'r holiadur ar-lein. Y gyfradd ymateb gyffredinol i'r ddwy adran oedd 37.1%.
- 1.11 Roedd holiadur ar-lein yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfanswm o wyth prif fodiwl. Ymhlith y pynciau roedd:
- Gwasanaethau a chyfleusterau lleol
 - Gwirfoddoli
 - Graddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS)
 - Cosbi plant yn gorfforol
 - Gamblo
 - Dinasyddiaeth fyd-eang
 - Ymddygiadau o ran newid yn yr hinsawdd
 - Ailgylchu
- 1.12 Rhoddwyd taleb siopa i'r ymatebwyr i ddiolch iddynt am gymryd rhan yn yr arolwg. Anfonwyd y daleb atynt ar ôl y cyfweiliad. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2021, derbyniodd pob ymatebydd £15. Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd treial cymelliadau lle y cafodd hanner y sampl gymwys (sampl heb gynnwys y rhai yn y treial ar-lein) £10 a'r hanner arall £15 (gweler adran 4 am

ragor o fanylion). Cafodd y sampl treial ar-lein £15 am gwblhau'r adran dros y ffôn a'r adran ar-lein.

- 1.13 Roedd holiadur yr arolwg a'r holl ddeunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn (yr arolwg peilot a'r prif arolwg), gyda chyfweliadau yn cael eu cynnig hefyd mewn ieithoedd eraill gyda chymorth cyfieithydd yn ôl yr angen.
- 1.14 Defnyddiwyd cyfanswm sampl a ddewiswyd o 30,593 o gyfeiriadau drwy gydol 2021-22. Roedd hyn yn wahanol i faint y sampl wreiddiol a dynnwyd. Oherwydd natur lai sefydlog yr ymateb a gafwyd oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau symud, cafodd maint y sampl fisol a ddewiswyd ei fonitro a'i addasu drwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y sampl ofynnol yn cael ei sicrhau.
- 1.15 Defnyddiwyd sampl o 36,006 yn wreiddiol o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post defnyddwyr bach Swyddfa'r Post ar gyfer blwyddyn arolwg 2021-22. Roedd y sampl wedi'i haenu ar sail y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (ALLau) gydag ymdrech yr arolwg yn gymesur yn fras â maint poblogaeth ALLau, gyda gorsamplu er mwyn sicrhau isafswm maint sampl effeithiol o 250 mewn ALLau llai o faint a 750 ym Mhowys¹. Dewiswyd sampl wrth gefn yn yr un ffordd. Lle roedd angen gwneud addasiadau i'r sampl wreiddiol, cafodd y rhain naill ai eu symud yn systematig o ALL mewn mis penodol, neu eu hychwanegu'n systematig at ALL mewn mis penodol gan ddefnyddio'r sampl wrth gefn.
- 1.16 Roedd nifer y cyfweliadau dros y ffôn a sicrhawyd ym mhob ALL rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 yn amrywio o 348 yn Nhorfaen i 1,244 ym Mhowys. $(r)^2$
- 1.17 Fel arfer, cynhelir arolwg peilot bach ym mis Ionawr cyn blwyddyn arolwg newydd. Oherwydd y nifer mawr o newidiadau parhaus yn ystod y pandemig, ni chynhaliwyd arolwg peilot ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, gwnaethpwyd llawer o newidiadau i'r Arolwg Cenedlaethol o fis Ionawr 2021, a chasglwyd adborth gan gyfwelwyr maes er mwyn gallu nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw cyn blwyddyn arolwg 2021-22.

² 26 Ionawr 2024: Diwygio nifer y cyfweliadau a adroddwyd yn flaenorol yn 347 yn Nhorfaen, a 1,243 ym Mhowys

Strwythur yr adroddiad

- 1.18 Bwriedir i'r adroddiad hwn roi disgrifiad clir a dealladwy o'r ffordd yr aethpwyd ati i gasglu a phrosesu'r data.
- 1.19 Ar ôl y bennod gyflwyno hon, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n bum pennod arall:
- Mae **Pennod 2** ('Samplu') yn disgrifio'r broses o ddewis cyfeiriadau ar gyfer yr arolwg.
 - Mae **Pennod 3** ('Cynnwys a datblygiad yr holiadur') yn ystyried y broses o ddatblygu cwestiynau ar gyfer meysydd pwnc i'w cynnwys yn yr arolwg, a'r gwaith datblygu a phrofi a gynhaliwyd ar holiadur yr arolwg a'i broses weithredu gyfrifiadurol.
 - Mae **Pennod 4** ('Gwaith maes') yn cwmpasu'r broses o baratoi cyfwelwyr ar gyfer gwaith maes, gweithdrefnau gwaith maes, niferoedd cyfweliadau, cyfraddau ymateb, ac amseriadau cyfweliadau.
 - Mae **Pennod 5** ('Prosesu data ac allbynnau') yn rhoi trosolwg o'r broses o baratoi'r setiau data a'u pennu'n derfynol.
 - Mae **Pennod 6** ('Pwysoli a diffyg ymateb') yn disgrifio'r broses bwysoli.

2. Samplu

Dyluniad y sampl

- 2.1 Mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi'i ddylunio i fod yn gynrychioliadol o'r holl oedolion 16 oed neu'n hŷn sy'n byw mewn cartrefi preifat yng Nghymru. Felly, mae'r sampl flynyddol wedi'i sefydlu fel hapddewisiad un cam wedi'i haenu o gyfeiriadau ledled Cymru.
- 2.2 Daeth y sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol³, lle cafodd pob cyfeiriad preswyl a math o annedd eu cynnwys yn y broses dewis sampl cyhyd ag yr oeddent wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol.⁴ Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, cafodd cartrefi parciau preswyl ac anheddau eraill eu cynnwys yn y ffrâm samplu.
- 2.3 Yna, cafodd cyfeiriadau wedi'u samplu eu clystyru'n chwarterol er mwyn sicrhau bod y gwaith maes yn cael ei ddyrannu'n effeithiol.
- 2.4 Cafodd y sampl ei haenu yn ôl ALI gan ddefnyddio dyraniad gyda'r nod o sicrhau isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yn seiliedig ar y gyfradd ymateb amcangyfrifedig (250 ym mhob ALI ac eithrio Powys, lle cafwyd isafswm maint sampl effeithiol o 750 er mwyn rhoi amcangyfrifon digon manwl ar lefel y bwrdd iechyd lleol).⁵ Ystyriwyd dwysedd a maint y boblogaeth ar lefel ALI wrth dynnu'r sampl, ond cafodd rhai ardaloedd (e.e. ALLau bach) eu gorsamplu er mwyn sicrhau samplau a oedd yn ddigon mawr i roi amcangyfrifon cadarn.
- 2.5 Caiff sampl wrth gefn, sydd yr un maint â'r brif sampl, ei dewis hefyd gan ddefnyddio'r fethodoleg samplu.

³ Ceir rhagor o wybodaeth am Ganolfan drwyddedu PAF ar [wefan y Post Brenhinol](#).

⁴ Mae cyfeiriadau preswyl yn golygu cartrefi preifat ledled Cymru. Nid ydynt yn cynnwys llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brecwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

⁵ Mae'n rhaid ystyried natur gymhleth dyluniad y sampl wrth gyfrifo'r amrediad posibl o wallau samplu. Caiff effaith y dyluniad ei gynrychioli'n aml gan yr ystadegyn 'effaith dyluniad'. Er enghraifft, mae effaith dyluniad o 1.3 yn nodi y dylai maint y sampl wirioneddol gael ei rannu â 1.3 er mwyn cael maint sampl ystadegol effeithiol. Maint sampl ystadegol effeithiol yw maint sampl ar hap syml cyfatebol a fyddai'n arwain at wallau samplu o'r un maint. Mae effaith y dyluniad yn amrywio ar gyfer pob mesur yn yr arolwg.

- 2.6 Ceir samplu pellach yn yr holiadur lle mai dim ond i is-sampl o ymatebwyr y gofynnir rhai o fodiwlau'r holiadur (gweler paragraff 3.21).
- 2.7 Cafodd y sampl ei dyrannu ar y dechrau drwy ddefnyddio dyraniad cymesur, sy'n golygu bod maint y sampl ym mhob ALI yn gymesur â maint yn seiliedig ar nifer y cyfeiriadau yn yr ALI hwnnw. Er mwyn sicrhau'r isafswm maint sampl effeithiol ym mhob ALI, yna cafodd y dyraniad ei addasu fel a ganlyn:
- a) Nodwyd yr ALLau lle roedd yr isafswm maint sampl effeithiol yn annhebygol o gael ei sicrhau.
 - b) Yn yr ALLau hynny, pennwyd maint y sampl i'r isafswm hwn a dyrannwyd gweddill y sampl â thebygolrwydd a oedd yn gymesur â maint.
 - c) Cynhaliwyd camau (a) a (b) yn iteraidd nes bod yr isafswm maint sampl effeithiol wedi'i sicrhau ar gyfer pob ALI.
- 2.8 Yr unig ALI a orsamplwyd yn y ffordd hon yn 2021-22 oedd Powys.
- 2.9 O fewn pob cartref a samplwyd, ceisiwyd cynnal cyfweiliad unigol ag un oedolyn 16 oed neu'n hŷn. Lle roedd cartref yn cynnwys mwy nag un oedolyn (16 oed a hŷn), dewiswyd un oedolyn ar hap.

Dewis cyfeiriadau (gan gynnwys sampl wrth gefn)

- 2.10 Cyn pandemig COVID-19, maint y sampl flynyddol oedd tua 24,900. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, gwelwyd gostyngiad mewn cyfraddau ymateb. Gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar gyfraddau ymateb tebygol, dewiswyd sampl o 36,006 ar gyfer y brif sampl, wedi'i haenu yn ôl ALI (gweler yr adran flaenorol).
- 2.11 Er mwyn dewis cyfeiriadau i'w cynnwys yn yr arolwg, trefnwyd y PAF yn ôl cod post a dewiswyd sampl systematig⁶ o gyfeiriadau o bob ALI gan ddefnyddio maint y sampl darged ym mhob ALI. Cafodd cyfeiriadau a samplwyd o fewn y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer unrhyw un o arolygon cymdeithasol SYG neu ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2017-18, 2018-19, 2019-20 neu 2020-21 eu hepgor drwy ddefnyddio Ffeil Cyfeiriadau a Ddefnyddiwyd yn Arolygon Cymdeithasol SYG, sef

⁶ Caiff cyfeiriadau eu trefnu yn ôl cod post, yna caiff man dechrau yn y rhestr hon ei ddewis ar hap a chaiff pob fed cyfeiriad ei ddewis (yn dibynnu ar y gyfran sydd ei hangen ym mhob ALI).

rhestr o gyfeiriadau a samplwyd ar gyfer arolygon cymdeithasol a gynhelir gan SYG.⁷

- 2.12 O ystyried yr ansicrwydd ynglŷn ag amrywiadau yn y gyfradd ymateb a'r gyfradd gymhwystra, ynghyd â'r gofyniad arferol i gynnal arolwg peilot, cafodd sampl wrth gefn a oedd yn hafal i'r brif sampl ei thynnu, a hefyd ei haenu yn ôl ALI, drwy'r dull a amlinellwyd uchod, er yn annibynnol ar y brif sampl. Roedd y sampl a dynnwyd o faint hafal er mwyn rhoi cyfle i ychwanegu at y brif sampl ar unrhyw adeg benodol ac mewn unrhyw ardal ofynnol, gan nad oedd yn hysbys ar yr adeg y tynnwyd y sampl wrth gefn ym mha ardal y gallai fod angen achosion ychwanegol. Defnyddiwyd y sampl wrth gefn i ychwanegu at samplau ar gyfer mis penodol mewn ALLau gofynnol, os oedd y cyfraddau ymateb a sicrhawyd yn is na'r rhai a ragwelwyd pan dynnwyd y brif sampl. Gwnaethpwyd mwy o ddefnydd o'r sampl wrth gefn yn 2021-22 nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd natur anrhagweladwy yr ymateb yn ystod COVID-19 a'r cyfyngiadau symud.
- 2.13 O fis Gorffennaf 2021, cafodd meintiau'r samplau a ddewiswyd eu haddasu'n fisol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn fwy cyson â thargedau ALI ar ddiwedd y flwyddyn. Bob mis, cafodd nifer cyfredol y cyfweliadau a sicrhawyd fesul ALI ei ddefnyddio, ochr yn ochr â'r data diweddaraf ar gyfraddau ymateb a chyfraddau anghymwysra ALI, i ragweld nifer terfynol y cyfweliadau a sicrhawyd. Yna cafodd y sampl a ddewiswyd ei haddasu i fyny neu i lawr, lle'r oedd y gyfradd a sicrhawyd a ragwelwyd yn wahanol i'r targed. Roedd y dull hwn yn sicrhau gwerth am arian. Roedd hefyd yn sicrhau bod yr adnodd maes yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r targedau yr oedd eu hangen i lunio amcangyfrifon cadarn.
- 2.14 Os oedd angen lleihau sampl, dilëwyd cyfeiriadau yn systematig o'r sampl ALI gyfan er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw duedd yn cael ei gweld. Os oedd angen cynyddu sampl, byddai'r sampl wrth gefn yn cael ei defnyddio.
- 2.15 Mae Tabl 2.1 yn dangos trosolwg o ddisbarthiad y sampl ar draws ALLau, ar gyfer y sampl a ddewiswyd yn wreiddiol a'r sampl derfynol a ddefnyddiwyd drwy gydol y

⁷ Mae'r union gyfnod ar gyfer atal cyfeiriadau rhag cael eu hailddewis yn amrywio o arolwg i arolwg.

flwyddyn. Mae'r dosbarthiad hwn wedi newid ers y blynyddoedd cyn y pandemig yn sgil y newid mewn cyfraddau ymateb a chyfraddau anghymwysra awdurdodau lleol yn ystod y pandemig, ond y nod oedd sicrhau 12,000 o gyfweiliadau ledled Cymru o hyd.

Tabl 2.1: Nifer y cyfeiriadau a gynhwyswyd yn y brif sampl yn ôl ALI

Awdurdod lleol	Maint y sampl wreiddiol a ddewiswyd	Maint y sampl derfynol a ddyroddwyd
Blaenau Gwent	1,113	998
Pen-y-bont ar Ogwr	1,464	1,280
Caerffili	1,763	1,641
Caerdydd	3,528	3,305
Sir Gaerfyrddin	2,024	1,563
Ceredigion	1,127	1,079
Conwy	1,346	1,152
Sir Ddinbych	998	1,008
Sir y Fflint	1,535	1,502
Gwynedd	1,524	1,287
Ynys Môn	1,078	1,094
Merthyr Tudful	1,014	1,182
Sir Fynwy	1,022	967
Castell-nedd Port		
Talbot	1,513	1,292
Casnewydd	1,529	1,405
Sir Benfro	1,498	1,279
Powys	3,185	3,589
Rhondda Cynon Taf	2,463	2,282
Abertawe	2,563	2,217
Torfaen	1,008	826
Bro Morgannwg	1,357	1,083
Wrecsam	1,354	1,228
CYFANSWM (Cenedlaethol)	36,006	33,259

Trefnu'r Sampl yn sypiau a'u dyrannu

- 2.16 Cafodd prif sampl 2021-22 ei rhannu'n gwotâu (clystyrau o gyfeiriadau) ac yna eu dyrannu yn ôl misoedd. Cafodd y cwotâu eu dyrannu'n seiliedig ar eu sgôr cyfartalog o dan MALIC⁸ gan sicrhau bod cymysgedd o gwotâu sgorio uchel, isel a chanolig ym mhob chwarter ar gyfer pob ALI. Tybiwyd y byddai'r dosbarthiad ar draws ALIau a sgoriau MALIC yn sicrhau bod y sampl chwarterol yn gynrychioliadol

⁸ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

o'r boblogaeth. Gan na chaiff pob ardal ei chwmpasu ym mhob chwarter, caiff y sampl chwarterol ei chlystyru.

- 2.17 Cafodd y cwtâu hyn eu dyrannu gan Reolwyr Cyfwelwyr i Gyfwelwyr Maes a fyddai wedyn yn gweithio i sicrhau ymateb gan y cyfeiriadau hyn a ddyroddwyd yn ystod y mis.
- 2.18 Roedd cwota cyfartalog yn cynnwys tua 26 o achosion. Roedd y cwtâu mwyaf a ddyrannwyd yn 2021-22 yn cynnwys 39 o achosion. Roedd nifer y cyfeiriadau a ddyrannwyd y mis o'r brif sampl yn amrywio rhwng 2,642 (Chwefror 2022) a 3,013 (Ebrill 2021).
- 2.19 Ar gyfer y treial ar-lein (rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ionawr 2022), dewiswyd cyfeiriadau gan ddefnyddio dull samplu systematig lle cafodd y sampl ei threfnu yn ôl Cwota a Nifer y cyfeiriadau. I bob diben, arweiniodd hyn at sampl haenedig gymesur yn ôl ALI.
- 2.20 Ar gyfer y treial cymelliadau (rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022), dewiswyd cyfeiriadau hefyd gan ddefnyddio dull samplu systematig lle cafodd y sampl gymwys (h.y. yr holl gyfeiriadau na chawsant eu dewis ar gyfer y treial ar-lein) ei threfnu yn ôl Cwota a Nifer y cyfeiriadau. I bob diben, arweiniodd hyn at sampl wedi'i rhannu, a oedd yn sampl haenedig gymesur yn ôl ALI, wedi'i rhannu rhwng y grŵp cymhelliad £10 a'r grŵp cymhelliad £15.

Dewis anheddau, cartrefi ac unigolion

- 2.21 O dan amgylchiadau pan ganfuodd cyfwelydd ar ddechrau'r alwad ffôn neu yn ystod ymweliad Cnocio i Wthio (KtN) fod mwy nag un annedd (e.e. bloc o fflatiau) neu fwy nag un cartref (e.e. dwy fflat un gwely neu fwy) mewn cyfeiriad a samplwyd, dewiswyd un annedd/cartref ar hap gan ddefnyddio Grid Kish⁹. Cafodd cyfwelwyr gyfarwyddyd i hysbysu'r pencadlys o dan amgylchiadau o'r fath er mwyn i'r pencadlys ddiweddarau cofrestr y sampl (yn achos cyfeiriadau lluosog) a hefyd roi cymorth, yn ôl yr angen, pan nad oedd yn glir sut y dylid dewis ar hap (e.e. lle nad oedd fflatiau nac unedau cartrefi wedi'u rhifo).

⁹ Tabl o rifau ar hap yw Grid Kish, a ddefnyddiwyd yn yr achos hwn fel dull o ddewis unedau preswyl o fewn annedd ar hap. Gweler Atodiad A.

- 2.22 O fewn y cartref a samplwyd, cyfwelir un oedolyn (16 oed a hŷn) ar gyfer yr arolwg. Os oes mwy nag un person 16 oed neu'n hŷn yn byw yn y cyfeiriad, dewisir ymatebydd ar hap. Ers mis Ionawr 2021, mae'r Arolwg Cenedlaethol wedi defnyddio'r dull dewis pen-blwydd nesaf yn hytrach na dull dewis Kish a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Ymhlith y rhesymau dros y newid mae'r canlynol:
- 2.22.1 Mae'r dull pen-blwydd nesaf yn symlach i'w ddefnyddio na grid Kish, mae'n fwy cryno ac yn llai ymwithiol gan nad oes angen i ni ofyn am lawer o wybodaeth bersonol am y cartref cyn iddo hyd yn oed gytuno i gymryd rhan ac felly mae'n haws ei defnyddio dros y ffôn.
- 2.22.2 Mae 90% o gartrefi yn cynnwys tri unigolyn neu lai, felly mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod pen-blwyddi pawb arall yn y cartref.
- 2.22.3 Mae'n llai o ymdrech i'r aelod o'r cartref ac i'r cyfwelydd – mae'n gyflymach ac yn haws ei ddefnyddio.
- 2.22.4 Mae'r dull pen-blwydd nesaf yn sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol o hyd drwy ddewis unigolyn ar hap.
- 2.23 Mae'r dull pen-blwydd nesaf wedi cael ei fabwysiadu i wneud y broses mor syml â phosibl i ymatebwyr er mwyn ceisio sicrhau'r cyfraddau ymateb uchaf posibl, gan barhau i ddewis sampl ar hap ar yr un pryd.
- 2.24 Os nad yw'r aelod o'r cartref y mae'r cyfwelydd yn siarad ag ef yn gwybod pen-blwyddi pawb yn y cartref, gofynnir "allan o'r pen-blwydd rydych yn eu gwybod, pwy sy'n cael ei ben-blwydd nesaf?"
- 2.25 Mae Tabl 2.2 yn dangos cywirdeb y dull dewis pen-blwydd nesaf. Dangosodd 94.3% o achosion fod yr ymatebydd yn cael ei ddewis yn gywir gan ddefnyddio'r dull dewis pen-blwydd nesaf. Mewn 0.9% o achosion, ni ellir mesur y cywirdeb h.y. gwrthododd yr ymatebydd roi dyddiad geni, dim ond rhan o ddyddiad geni a roddwyd, neu cafodd dau unigolyn neu fwy yn y cartref eu geni ar yr un diwrnod. Mewn 4.9% o achosion, dewiswyd yr unigolyn anghywir, efallai am fod y pen-blwydd nesaf a oedd yn "hysbys" wedi cael ei ddefnyddio ar yr adeg dewis ac wedyn roedd yr ymatebydd yn gwybod am ben-blwyddi gwahanol i'r unigolyn a

oedd yn gysylltiedig â'r broses ddewis yn wreiddiol, neu oherwydd dewis anghywir go iawn.

Tabl 2.2 Cywirdeb y dull dewis pen-blwydd nesaf

	Amllder	Canran
Cafodd yr unigolyn â'r pen-blwydd nesaf ei ddewis yn gywir	11,821	94.0%
Ni chafodd yr unigolyn â'r pen-blwydd nesaf ei ddewis yn gywir	613	4.9%
Rhan o ddyddiad geni neu rywun yn y cartref wedi'i eni ar yr un diwrnod	112	0.9%
Cyfanswm	12,580	

3. Cynnwys a datblygiad yr holiadur

Trosolwg o'r holiadur

- 3.1 Mae dyluniad yr arolwg yn seiliedig ar holiadur dros y ffôn a roddir i un oedolyn 16 oed neu'n hŷn a ddewisir ar hap ym mhob cartref sy'n cael ei samplu. Yn 2021-22, gofynnwyd i is-sampl o ymatebwyr gymryd rhan mewn arolwg ar-lein hefyd ar ôl iddynt gwblhau'r holiadur dros y ffôn. Datblygwyd cynnwys yr holiadur dros y ffôn a'r holiadur ar-lein gan Lywodraeth Cymru a'r tri chorff a noddir ganddi. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holiadur ac ymgynghoriad rhanddeiliaid er mwyn nodi anghenion polisi newydd a phenderfynu ar gynnwys yr holiadur ar gyfer blwyddyn newydd yr arolwg. Roedd yr [holiadur](#) craidd o fis Ebrill 2021 yn cwmpasu ystod o bynciau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, llesiant, iechyd personol, y celfyddydau, gweithgareddau chwaraeon, gofal plant ac addysg plant, gwirfoddoli a chyflogaeth, amddifadedd materol, y Gymraeg, trafnidiaeth, a'r rhyngwyd. Cyhoeddir rhestr lawn o'r modiwlau yn yr holiadur terfynol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).
- 3.2 Fel arfer, cynhelir arolwg peilot bach ym mis Ionawr cyn blwyddyn arolwg newydd. Oherwydd y nifer mawr o newidiadau parhaus yn ystod y pandemig, ni chynhaliwyd arolwg peilot ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, gwnaethpwyd llawer o newidiadau i'r

Arolwg Cenedlaethol ym mis Ionawr 2021, a chasglwyd adborth gan gyfwelwyr maes er mwyn gallu nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion cyn dechrau blwyddyn arolwg 2021-22.

Cynnwys a datblygiad yr holiadur

- 3.3 Yn 2021-22, roedd cwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys pynciau a ofynnwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond roedd y cwestiynau wedi'u haddasu i weithio dros y ffôn. Datblygwyd cwestiynau newydd hefyd gyda chyfeiriad at gwestiynau a ofynnwyd mewn arolygon mawr eraill. Bydd newidiadau ar gyfer blynyddoedd olynol yn cynnwys diweddariadau bach i gwestiynau unigol y parheir i'w defnyddio o flwyddyn i flwyddyn, rhoi'r gorau i ddefnyddio rhai modiwlau holiadur nad oes angen gofyn amdanynt bob blwyddyn arolwg neu roi'r gorau i'w defnyddio dros dro, yn ogystal â chyflwyno modiwlau holiadur a chwestiynau unigol newydd.
- 3.4 Yn dilyn newid i'r dull casglu oherwydd y pandemig, cafodd sawl modiwl eu hepgor o'r holiadur dros y ffôn gan nad oeddent yn addas ar gyfer y dull casglu hwn. Roedd dau brif reswm dros hyn. Roedd rhai cwestiynau yn rhan o adran CASI (Hunangyfweliadau â chymorth cyfrifiadur) yr holiadur wyneb yn wyneb yn flaenorol, a gallai ymatebwyr gwblhau'r cwestiynau hyn yn breifat oherwydd y natur sensitif a'r tebygolrwydd uwch y byddai tuedd o ran dymunoldeb cymdeithasol (h.y. gamblo a chosbi plant yn gorfforol). Roedd yna rai cwestiynau hefyd a gafodd eu dileu oherwydd roedd y cwestiynau neu'r categorïau ymateb yn rhy hir i'w darllen dros y ffôn. Mae'n well casglu'r rhain pan all yr ymatebydd eu darllen drosto ef ei hun.
- 3.5 O ganlyniad, dechreuwyd y treial ar-lein ym mis Gorffennaf 2021 (a pharhaodd tan ddiwedd mis Ionawr 2022). Ar gyfer y treial, aeth yr ymatebydd ati i gwblhau'r arolwg dros y ffôn gyda'r cyfwelydd yn gyntaf cyn cwblhau'r adran ar-lein a oedd yn cynnwys y cwestiynau nad oeddent yn cael eu gofyn mwyach yn y prif holiadur dros y ffôn.
- 3.6 Ceir rhagor o wybodaeth am gynnwys holiadur terfynol 2021-22 a'r cefndir i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Rhaglennu a phrofi'r holiadur

- 3.7 Cafodd yr holiadur ffôn ei sgriptio gan SYG a'i weinyddu drwy ddefnyddio Statistics Netherlands Blaise Enterprise 4.8 ("Blaise 4").
- 3.8 Nododd Llywodraeth Cymru nifer o fodiwlau ar gyfer yr holiadur lle mai dim ond ar lefel genedlaethol, lefel bwrdd iechyd lleol, neu leol ranbarthol roedd angen amcangyfrifon arolwg. Felly, ni ofynnwyd rhai o fodiwlau'r holiadur dros y ffôn i bob ymatebydd, a helpodd i sicrhau na fyddai cyfweiliadau yn fwy na thua 35 munud ar gyfartaledd. Cafodd adrannau perthnasol eu rhaglennu i'w gofyn i is-sampl yn unig o ymatebwyr a ddewiswyd ar hap, ac weithiau o fewn ardaloedd daearyddol penodol. Mae Atodiad B yn rhoi trosolwg o fodiwlau a is-samplwyd, maint y sampl flynyddol yr oedd ei angen, ac ystyriaethau daearyddol.
- 3.9 Cafodd yr holiadur ar-lein ei sgriptio gan SYG a'i weinyddu drwy ddefnyddio Statistics Netherlands Blaise Enterprise 5 ("Blaise 5").
- 3.10 Wrth raglennu sgrïpt yr holiaduron dros y ffôn a'r holiadur ar-lein yn Blaise, gwnaeth SYG gynnwys nifer o wiriadau meddal a chaled fel y byddai cyfwelwyr/ymatebwyr yn effro i achosion lle byddai cyfuniad o atebion yn annhebygol neu annichonadwy. Lle roedd cyfuniad o atebion yn annhebygol, gwnaeth gwiriad meddal dynnu sylw'r cyfwelydd/ymatebydd at yr atebion a roddwyd a gofyn iddo gadarnhau'r ymateb cyn bwrw ymlaen – ond caniatwyd iddo fwrw ymlaen os cadarnhawyd bod y wybodaeth hon yn gywir (e.e. mewnbynnu dyddiad geni sy'n rhoi oedran o 110 mlynedd). Ysgogwyd gwiriad caled pan oedd yn amlwg nad oedd y cyfuniad o atebion a roddwyd yn bosibl (er enghraifft, mab/merch yn cael ei godio/chodio fel petai'n hŷn na'r fam/tad). Yn yr achosion hyn, ni allai'r cyfwelydd/ymatebydd fwrw ymlaen â gweddill yr holiadur nes bod y wybodaeth hon wedi cael ei chywiro. Roedd y gwiriadau hyn yn sicrhau yr ymdrinnid ag anghysonderau yn y data ar y cam cyfweld, gan wella ansawdd y data.
- 3.11 Er mwyn sicrhau bod y sgrïpt derfynol yn rhedeg yn esmwyth ac wedi'i gosod yn ôl y fanyleb, cynhaliwyd y gwiriadau canlynol gan SYG a Llywodraeth Cymru:
- **Testun cwestiynau** – ei fod yn gyson â manyleb yr holiadur drwyddi draw.

- **Llwybro'r cwestiynau** – bod y sgript wedi'i rhaglennu yn unol â'r llwybrau a bennwyd – profwyd hyn drwy ddefnyddio nifer o senarios gwahanol o gartref ac ymateb.
- **Rhifau/enwau'r cwestiynau** – bod y rhain yn gyson â rhifau/enwau ym manyleb yr holiadur lle y bo'n berthnasol.
- **Arddangosiad sgrin** – bod y cwestiynau wedi'u fformatio yn unol â safon SYG a'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr/ymatebwyr.
- **Rhestrau o ymatebion** – bod y rhain yn gyson â manyleb yr holiadur a'u bod wedi'u harddangos yn glir, gan osgoi unrhyw sgrolio diangen i gyfwelwyr/ymatebwyr.
- **Cyfarwyddiadau i gyfwelwyr/ymatebwyr** – bod y rhain yn glir ac yn gyson â manyleb yr holiadur.
- **Testun-lenwi** – bod unrhyw gwestiynau neu destun o fewn cwestiynau yn cael eu harddangos yn gywir.
- **Gwiriadau cyfweliadau â phobl drwy gymorth cyfrifiadur (CAPI)** – bod yr holl wiriadau meddal a chaled yn y CAPI yn cael eu hysgogi lle y bo hynny'n gymwys.
- **Symudedd/dibynadwyedd y sgript** – bod sgript yr holiadur dros y ffôn yn galluogi cyfwelwyr i symud ymlaen (ac yn ôl, os oedd angen er mwyn diwygio'r wybodaeth a fewnbynwyd) heb golli data na gwallau eraill. Yn yr holiadur ar-lein, na allai ymatebwyr ddychwelyd i fodiwlau a gwblhawyd yn flaenorol er mwyn sicrhau diogelwch eu data.
- **Dewis iaith** – bod yr adnodd casglu data yn galluogi cyfwelwyr i ddewis iaith ar ddechrau'r cyfweliad a pharhau yn yr iaith hon, a thoglo rhwng Cymraeg a Saesneg yn ôl gofynion yr ymatebydd.
- **Cyfieithu** – bod yr holiadur yn llifo'n dda yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.12 Yn ogystal â'r gwiriadau uchod, cynhaliodd SYG ymarfer 'gorlifo data' ar sgript derfynol y prif arolwg, a greodd nifer o ffug gyfweliadau. Hwn oedd y gwiriad olaf bod holl is-samplu'r holiadur, yn seiliedig ar ddewis ar hap, wedi'i osod yn ôl y fanyleb.

- 3.13 Hefyd, rhoddwyd set ddata SPSS¹⁰ crai (.sav) yn seiliedig ar y 250 cyfweiliad cyntaf i Lywodraeth Cymru er mwyn gwirio amlderau ym mhob cwestiwn a'r ffracsiynau is-samplu. Defnyddiwyd y camau gwirio hyn i nodi problemau posibl gyda sgript CAPI.

Cyfieithu i'r Gymraeg

- 3.14 Darparodd Llywodraeth Cymru fanyleb holiadur a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Y nod oedd paratoi fersiwn Gymraeg o'r holiadur a allai gael ei deall ym mhob rhan o Gymru. Rhoddwyd y fersiwn wedi'i chyfieithu i SYG unwaith bod y fanyleb ar gyfer y fersiwn Saesneg o'r holiadur yn derfynol. Lle roedd cwestiynau yn dod o arolygon dwyieithog blaenorol, defnyddiwyd cyfieithiadau sefydledig er cysondeb a pharhad. Ar gyfer unrhyw gwestiynau newydd neu ddiwygiedig, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyfieithwyr ardystiedig, gan sicrhau bod yr un termau yn cael eu defnyddio drwy'r holiadur cyfan. Roedd timau ymchwil SYG a Llywodraeth Cymru yn gallu cysylltu â siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau ansawdd y cyfieithiad, yn ogystal â chyflwyno mân esboniadau a newidiadau.
- 3.15 Defnyddiodd SYG fanyleb yr holiadur Saesneg er mwyn gosod llwybro'r holiadur. Cafodd y testun Cymraeg ei gynnwys yn ddiweddarach yn y dalfannau perthnasol yn y sgript, a chafodd addasiadau perthnasol eu gwneud i'r adrannau lle roedd angen gosod testun-lenwi er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau gramadegol yn y Gymraeg. Profwyd y fersiwn Saesneg a'r fersiwn Gymraeg o'r CAPI yn annibynnol.
- 3.16 Codiodd cyfwelwyr ddewis iaith yr ymatebydd ar ddechrau'r cyfweiliad. Roedd rhaglen Blaise yn galluogi cyfwelwyr i doglo rhwng Cymraeg a Saesneg ar gyfer unrhyw gwestiwn ar unrhyw adeg drwy'r holiadur cyfan. Bwriadwyd i hyn helpu mewn sefyllfaoedd lle roedd ymatebwyr yn dewis cael eu cyfweld mewn un iaith ond roedd angen cyfieithiad ar unwaith o gwestiwn neu eiriad penodol am unrhyw beth y gallent fod wedi cael trafferth ei ddeall yn newis iaith y cyfweiliad.
- 3.17 Os oedd angen cynnal y cyfweiliad mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, roedd cyfwelwyr yn darllen y cwestiynau yn Saesneg ac roedd cyfieithydd yn eu cyfieithu. Byddai'r cyfieithydd naill ai'n aelod arall o gartref yr ymatebydd neu gallai'r

¹⁰ Pecyn Ystadegol ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol. IBM SPSS Statistics

cyfwelydd ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn er mwyn cwblhau'r cyfweliad. Pan ddefnyddiwyd cyfieithydd, ni ofynnwyd modiwlau penodol a ystyriwyd yn rhai sensitif er mwyn osgoi problemau ynglŷn â chyfrinachedd drwy ddatgelu gwybodaeth i drydydd person.


- 3.18 Cafodd yr holiadur a deunyddiau ymlaen llaw eu cyfieithu gan contractwr Llywodraeth Cymru. Cafodd mân newidiadau eu gwneud i'r holiadur neu'r deunyddiau ymlaen llaw gan dîm Llywodraeth Cymru a thîm SYG.

Amseriadau cyfweliadau


- 3.19 Cafodd nifer o bwyntiau amseru eu cynnwys yn yr holiadur er mwyn mesur hyd pob adran. Yn ogystal â hynny, defnyddiwyd data trywydd archwilio i amcangyfrif hyd yr holiadur cyfan yn ogystal â hyd cwestiynau unigol lle nad oedd pwyntiau amseru yn ddigon cywir. Mae Ffigur 3.1 yn dangos y newid yn hyd canolrifol a chymedrig yr holiadur ar gyfer yr holiadur dros y ffôn yn ystod blwyddyn yr arolwg¹¹. Mae Ffigur 3.2 yn dangos y newid yn hyd canolrifol a chymedrig yr holiadur ar gyfer yr holiadur ar-lein yn ystod y treial.
- 3.20 Mae Atodiad C yn rhoi trosolwg o hyd canolrifol a chymedrig pob adran o'r holiadur. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli amseriadau cyfartalog ar gyfer pob adran drwy'r sampl lawn gyfan, sy'n golygu, lle na ofynnwyd cwestiynau penodol (e.e. o ganlyniad i is-samplu) i ymatebydd, bod amser y cwestiwn wedi'i bennu'n sero mewn achosion perthnasol.

¹¹ Ym mis Gorffennaf a mis Medi, ni chofnodwyd y stamp amser a ddefnyddir fel arfer ar gyfer pob ymatebydd. Felly, defnyddiwyd y stamp amser a oedd agosaf at y gwreiddiol i gyfrifo'r amseriadau. Mae lleoliad y stamp amser newydd ychydig o flaen y gwreiddiol ac felly bydd amseriadau mis Gorffennaf a mis Awst yn ymddangos yn is yn artiffisial yn sgil newid bach yn y fethodoleg

Ffigur 3.1: Hyd cyfweiliadau dros y ffôn ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau*




Ffigur 3.2: Hyd cyfweiliadau ar-lein ar gyfartaledd yn ôl mis yr arolwg mewn munudau



3.21 Defnyddiwyd dull is-samplu yn yr arolwg, a oedd yn golygu bod rhai ymatebwyr yn cael eu holi am fodiwlau penodol ond na chafodd eraill eu holi. Mae Ffigur 3.3 yn rhoi trosolwg o ddsbarthiad hyd cyfweiliadau yr holiadur dros y ffôn. Roedd hyd cymedrig cyfweiliad yn 32.3 munud (cymedr o 34.0 munud), gyda 50% o ymatebwyr yn cael cyfweiliad a oedd yn para rhwng 24.9 a 40.9 munud.


Ffigur 3.3: Dosbarthiad hyd cyfweiliadau dros y ffôn mewn munudau*



**Ym mis Gorffennaf a mis Medi, ni chofnodwyd y stamp amser a ddefnyddir fel arfer ar gyfer pob ymatebydd. Felly, defnyddiwyd y stamp amser a oedd agosaf at y gwreiddiol i gyfrifo'r amseriadau. Mae lleoliad y stamp amser newydd ychydig o flaen y gwreiddiol ac felly bydd amseriadau mis Gorffennaf a mis Awst yn ymddangos yn is yn artiffisial yn sgil newid bach yn y fethodoleg*

- 3.22 Cynhaliwyd gwaith dadansoddi amseriadau hefyd ar ddata'r treial ar-lein. Mae Ffigur 3.4 yn rhoi trosolwg o ddosbarthiad hyd cyfweiliadau ar gyfer yr holiadur ar-lein. Roedd hyd cymedrig cyfweiliad yn 13.2 munud (cymedr o 15.5 munud), gyda 50% o ymatebwyr yn cael cyfweiliad a oedd yn para rhwng 9.7 a 18.5 munud.

Ffigur 3.4: Dosbarthiad hyd cyfweiliadau ar-lein mewn munudau



Newidiadau i sgrïpt holiadur Blaise

3.23 Cyflwynwyd nifer o newidiadau i sgrïpt yr holiadur yn ystod blwyddyn yr arolwg; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â diweddarau ffractsiynau is-samplu er mwyn sicrhau y gellid cyflawni meintiau targed is-samplau erbyn diwedd blwyddyn yr arolwg. Roedd yn rhaid monitro cyfrannau is-samplu yn ofalus yn ystod 2021-22 ac roedd yn fwy tebygol y byddai angen eu haddasu drwy gydol y flwyddyn oherwydd ffactorau anhysbys yn ymwneud â chyfraddau ymateb mewn perthynas â'r pandemig, a newidiadau ym maint y sampl fisol (gweler adran 2). Roedd y prif newidiadau i'r holiadur yn cynnwys y canlynol:

- Mai 2021 – Cyflwynwyd gwiriad caled er mwyn sicrhau bod modd mewnbynnu dyddiad geni lle'r oedd ymatebydd yn iau na 16 oed
- Mehefin 2021 – Cafodd is-samplu ei ddileu o'r modiwl Teithio llesol.
- Gorffennaf 2021 – Newidiwyd modiwlau cymelliadau yn sgil y treial cymelliadau
- Gorffennaf 2021 – Newidiwyd diwedd yr holiadur ar gyfer y treial ar-lein
- Gorffennaf 2021 – Addaswyd cyfrannau is-samplu oherwydd bod y sampl a sicrhawyd hyd at y pwynt hwnnw yn wahanol i'r disgwyl (mis Ebrill a mis Mai):
 - Cynnydd ym mwrdd iechyd lleol (BILI) Cwm Taf ar gyfer y modiwl apwyntiadau ysbyty

- Cynnydd yn BILI Powys ar gyfer y modiwl apwyntiadau deintyddol
 - Cynnydd yn BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y modiwl apwyntiadau deintyddol
 - Gostyngiad yng nghanran yr unigolion nad ydynt yn rhieni a ddewiswyd ar gyfer y modiwl hawliau plant
 - Gostyngiad yng nghanran yr unigolion nad ydynt yn rhieni a ddewiswyd ar gyfer y modiwl boddhad gyda'r system addysg
 - Cynnydd yng Nghanolbarth Cymru ar gyfer y modiwl boddhad gyda Llywodraeth Cymru
- Awst 2021 – Dilëwyd y wybodaeth am roi taleb i elusen gan nad oedd y cyflenwr yn rhoi'r talebau mwyach.
 - Hydref 2021 – Addaswyd cyfrannau is-samplu oherwydd bod y sampl a sicrhawyd hyd at y pwynt hwnnw yn wahanol i'r disgwyl (mis Ebrill i fis Awst):
 - Cynnydd ym mwrdd iechyd lleol (BILI) Prifysgol Betsi Cadwaladr a BILI Cwm Taf ar gyfer y modiwl apwyntiadau ysbyty
 - Cynnydd yn BILI Cwm Taf ar gyfer y modiwl apwyntiadau deintyddol
 - Cynnydd yn y ganran a ddewiswyd ar gyfer anifeiliaid anwes
 - Cynnydd ym mhob rhanbarth ar gyfer y modiwl boddhad gyda Llywodraeth Cymru
 - Ionawr 2022 – Addaswyd cyfrannau is-samplu oherwydd bod y sampl a sicrhawyd hyd at y pwynt hwnnw yn wahanol i'r disgwyl (mis Ebrill i fis Tachwedd):
 - Cyfran is ym mwrdd iechyd lleol (BILI) Prifysgol Betsi Cadwaladr, BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro a BILI Cwm Taf ar gyfer y modiwl apwyntiadau ysbyty
 - Cyfran is yn BILI Powys ar gyfer y modiwl apwyntiadau deintyddol
 - Cyfran is ar gyfer anifeiliaid anwes

- Cyfran is o unigolion nad ydynt yn rhieni ar gyfer y modiwl hawliau plant
- Cyfran is ar gyfer boddhad gydag iechyd
- Cyfran uwch yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru ar gyfer boddhad gyda Llywodraeth Cymru
- Mawrth 2022 – Addaswyd cyfrannau is-samplu oherwydd bod y sampl a sicrhawyd hyd at y pwynt hwnnw yn wahanol i'r disgwyl (mis Ebrill i fis Ionawr):
 - Cyfrannau uwch yn BILI Aneurin Bevan a BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer apwyntiadau ysbyty
 - Cyfrannau is yn BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer apwyntiadau ysbyty
 - Cyfrannau uwch yn BILI Aneurin Bevan ar gyfer apwyntiadau deintyddol
 - Cyfrannau is yn BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro a BILI Hywel Dda ar gyfer apwyntiadau deintyddol
 - Cyfran uwch yn BILI Cwm Taf ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu ac iechyd
 - Cyfran uwch yn BILI Aneurin Bevan ar gyfer gofal llygaid a namau ar y clyw
 - Cyfran is yn BILI Powys ar gyfer gofal llygaid a namau ar y clyw
 - Cyfran is ar gyfer anifeiliaid anwes
 - Cyfran is o unigolion nad ydynt yn rhieni ar gyfer y modiwl hawliau plant
 - Cyfran is o unigolion nad ydynt yn rheini ar gyfer boddhad gyda'r system addysg
 - Cyfran is ar gyfer boddhad gydag iechyd
 - Cyfran uwch yn Ne-ddwyrain Cymru, Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru ar gyfer boddhad gyda Llywodraeth Cymru

4. Gwaith maes

Recriwtio cyfwelwyr

- 4.1 Mae holl gyfwelwyr SYG yn aelodau o staff a gyflogir yn uniongyrchol, sy'n cael cyflog yn seiliedig ar eu horiau cytundebol (mae hyn yn cynnwys amser cyfweld yn ogystal ag amser at ddibenion teithio a gweinyddol). Ni thelir ffioedd penodol iddynt fesul cyfweliad a sicrhawyd nac ar sail gweithgareddau penodol eraill sy'n ymwneud ag arolygon. Yn lle hynny, mae eu cyflog yn cwmpasu'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'u swyddi, gan gynnwys hyfforddiant, paratoi gwaith, teithio i leoliadau ac ati. At hynny, mae cyfwelwyr yn hyblyg o ran yr oriau a weithir ganddynt er mwyn gweithio yn unol â'r galw a'r patrymau galwadau sydd eu hangen er mwyn cynnal gwaith maes yn y ffordd orau bosibl a hyrwyddo ansawdd data.
- 4.2 Hysbysebwr swyddi gwag i gyfwelwyr ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil¹². Fel arfer, ar ôl cylch cychwynnol o sgrinio ceisiadau a dethol, gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad sy'n seiliedig ar gymwyseddau a gynhelir dros y ffôn, er mwyn cyflymu'r broses o benodi pobl addas.
- 4.3 Parhaodd y broses o recriwtio, hyfforddi a briffio cyfwelwyr newydd drwy gydol cyfnod yr arolwg. Cyn i gyfwelwyr newydd gael eu briffio ar yr Arolwg Cenedlaethol, bu'n rhaid iddynt gwblhau hyfforddiant safonol SYG i gyfwelwyr, a oedd yn cynnwys gweithio ar gwotâu i arolygon eraill a gynhaliwyd gan SYG megis yr Arolwg o'r Llafurlu.
- 4.4 Mae cyfanswm o 106 o gyfwelwyr ac wyth rheolwr cyfwelwyr wedi cael eu briffio ar yr Arolwg Cenedlaethol ers mis Ebrill 2019, gyda rhwng 74 a 91 o gyfwelwyr yn gweithio ar yr arolwg bob mis (Tabl 4.1). Roedd saith cyfwelydd ac un rheolwr cyfwelwyr yn siarad Cymraeg

¹² [Civil Service job search - Civil Service Jobs - GOV.UK](https://www.gov.uk/civil-service-jobs)

Tabl 4.1: Nifer y cyfwelwyr yn ôl misoedd yr arolwg*

Mis	Nifer y cyfwelwyr a neilltuwyd ar gyfer yr arolwg **
Ebrill 2019	80
Mai	76
Mehefin	77
Gorffennaf	79
Awst	81
Medi	79
Hydref	74
Tachwedd	79
Rhagfyr	76
Ionawr 2020	79 (19)***
Chwefror	80
Mawrth	76
Cyfartaledd	78

* Mae nifer y cyfwelwyr yn y tabl isod yn cyfeirio at niferoedd yn hytrach na ffigurau cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae oriau cyfwelwyr yn 0.6 FTE, ar gyfartaledd.

**Mae nifer y cyfwelwyr yn y golofn hon ond yn cwmpasu cyfwelwyr a oedd yn gweithio ar yr arolwg yn ystod misoedd y gwaith maes.

***Ym mis Ionawr 2021, roedd 19 o gyfwelwyr ychwanegol yn gweithio ar y prawf peilot ar gyfer arolwg 22-23.

Briffio cyfwelwyr

4.5 Mynychodd pob cyfwelydd ddiwrnod briffio rhithwir. Roedd y diwrnod briffio yn cynnwys y canlynol:

- **Cefndir i'r arolwg** – yn esbonio'r cynnydd a wnaed ar yr arolwg, tynnu sylw at gyflawniadau ac unrhyw ddatblygiadau newydd o ran yr arolwg.
- **Gofynion a dogfennau galw** – yn ailbwysleisio gweithdrefnau gwaith maes, yn enwedig pan oeddent yn wahanol i weithdrefnau safonol SYG megis defnyddio a gweinyddu deunyddiau'r arolwg.
- **Cynnwys yr holiadur** – yn rhoi trosolwg o bob maes yn yr holiadur, ynghyd ag ychydig o wybodaeth gefndir am fodiwlau i'w his-samplu, gan dynnu sylw'n benodol at adrannau lle roedd angen briffio manylach ar y ffordd roedd angen eu gweinyddu.

- **Trosolwg o dreialon –**
 - Treial ar-lein – yn esbonio cynnwys a sensitifrwydd cwestiynau yn yr adran hon, gan esbonio pwysigrwydd hunangwblhau lle y bo'n bosibl, a sut i helpu ymatebwyr i deimlo'n gyfforddus yn cwblhau'r holiadur ar-lein yn annibynnol.
 - Treial cymelliadau – yn esbonio pam mae'r treial yn bwysig, a sut y dylid defnyddio'r deunyddiau a'r wybodaeth gywir ar gyfer pob grŵp.
- **Diogelu a chysylltu data** - yn tynnu sylw at y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (fel olynydd i'r Ddeddf Diogelu Data) a'i ystyr, yn esbonio pwysigrwydd a manteision cysylltu data'r arolwg â chofnodion gweinyddol eraill, yn rhoi gwybodaeth gefndir am y cysylltiadau data arfaethedig ar gyfer data'r Arolwg Cenedlaethol, ac yn esbonio'r ffordd yr ymdrinnir â'r cerdyn dangos, y daflen a'r siart lif ynglŷn â chysylltu data.
- **Gweinyddu yn y maes** – yn cwmpasu gwybodaeth gyffredinol am weinyddu'r arolwg.

4.6 O Ochr yn ochr â'r briffiadau, cafodd cyfwelwyr ddeunydd dysgu ar ffurf achosion hyfforddi, a dogfen ganllaw a oedd yn cynnwys manylion am gwmpas yr arolwg, deunydd ysgrifennu, cyfnodau maes, nodiadau canllaw ar yr holiadur a gwybodaeth am weinyddu'r arolwg. I gael rhagor o wybodaeth am gwmpas yr arolwg, ewch i [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Goruchwyliaeth a rheoli ansawdd


4.7 Mae SYG yn defnyddio cyfres sefydledig o fesurau i olrhain ansawdd gwaith ei chyfwelwyr. Prif nodweddion y dull gweithredu hwn yw:

- defnyddio targedau clir y gellir monitro perfformiad cyfwelwyr yn eu herbyn
- gwiriadau rheoli ansawdd o gyfweiliadau byw i ddeall sut mae'r cyfwelydd yn cynnal ei gyfweiliadau
- adolygiadau rheolaidd o berfformiad er mwyn cael dealltwriaeth fwy ansoddol o'r ffordd mae cyfwelwyr yn perfformio

Dyddiadau gwaith maes, rheoli a gweithdrefnau

- 4.8 Dechreuodd y gwaith maes ar ddechrau mis Ebrill 2021 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Anfonwyd rhaglythyrau a thafleini'r arolwg gan swyddfa faes SYG tua 10 diwrnod cyn dechrau pob cyfnod maes misol. Cyfwelwyr oedd yn gyfrifol am anfon cardiau post dilynol i'r cyfeiriadau yn y cwotâu a neilltuwyd iddynt. Roedd hyn yn sicrhau y gellid amseru dosbarthiad y deunyddiau i gyd-daro'n agos â'r amser pan oedd cyfwelwyr yn bwriadu galw ac yn gallu personoli'r cod post ag enw a rhif ffôn y cyfwelydd.
- 4.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu rhif ffôn ar borth ar-lein y ceir mynediad iddo drwy ddefnyddio cod mynediad unigryw a ddarparwyd yn y rhaglythyr a dderbyniwyd ganddynt. Cafodd y sampl gyfan ei thelebaru, proses lle y ceir rhifau ffôn o ffynhonnell sydd ar gael yn fasnachol o'r enw REaD Group, sy'n darparu cyfleuster i baru rhifau ffôn â'r cyfeiriadau a samplwyd. (Gweler tabl 4.2 am gyfraddau llwyddiant)
- 4.10 Anogwyd cyfwelwyr i ddechrau eu haseiniadau mor fuan â phosibl yn ystod y mis dyroddi gan ddefnyddio rhifau porth i ddechrau, ac yna rhifau ffôn wedi'u telebaru. Lle nad oedd modd cael rhif ffôn neu lle nad oedd modd cysylltu, defnyddiwyd dull "Cnocio i wthio" (KtN). Dyma lle mae cyfwelwyr yn ymweld â'r cyfeiriadau a samplwyd i geisio cysylltu a chael rhif ffôn ar gyfer yr ymatebydd. Gyda'r dull "Cnocio i wthio", gall cyfwelwyr hefyd weld cyfeiriadau a samplwyd a nodi lle mae cyfeiriad yn anghymwys neu heb ei feddiannu.
- 4.11 Yn ystod 2021-22, cynyddodd canran y sampl a oedd yn destun gweithgarwch "Cnocio i Wthio" o 55.4% ym mis Ebrill 2021 i 75.0% ym mis Mawrth 2022 (Gweler Ffigur 4.1). Y prif reswm dros y newid hwn oedd pryderon cyfwelwyr ynghylch COVID-19 yn lleihau dros amser wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno ac wrth i nifer yr achosion o COVID-19 leihau. Roedd cyfwelwyr hefyd wedi bod yn defnyddio'r cyfeiriadur ffôn ar-lein yn flaenorol i gael rhifau ffôn. Fodd bynnag, cafodd y cyfleuster chwilio ei newid felly nid oedd modd iddynt ddefnyddio'r dull hwnnw mwyach.

Ffigur 4.1: Canrannau'r sampl a ddewiswyd lle y defnyddiwyd “Cnocio i wthio”



- 4.12 Caniatawyd i gyfwelwyr ddefnyddio dull “Cnocio i wthio” (KtN) hyd at dair gwaith ar gyfer unrhyw gyfeiriad penodol, gan sicrhau eu bod yn ymweld ar adegau gwahanol o'r dydd bob amser fel bod ganddynt y siawns orau o lwyddo. Ar gyfartaledd, roedd angen un alwad KtN ar gyfer 39.6% o gyfeiriadau, dwy alwad KtN ar gyfer 16.6% o gyfeiriadau a thair galwad KtN ar gyfer 10.8% o gyfeiriadau (ni ddefnyddiwyd KtN ar gyfer 31.7% ohonynt).
- 4.13 O edrych ar gyfweiliadau cynhyrchiol, cafwyd y mwyafrif o'r rhifau ffôn drwy ddefnyddio KtN, wedyn y rhifau ffôn hynny o'r porth ac yna lle roedd yr ymatebydd wedi cysylltu â'r cyfwelydd yn uniongyrchol (Gweler tabl 4.2).

Tabl 4.2: Canran y cyfweiliadau yn ôl pob dull o gasglu rhifau ffôn

Dull cysylltu	Canran y cyfweiliadau llawn
Cysylltwyd â'r cyfwelydd yn uniongyrchol	20.1%
Cnocio i Wthio	45.4%
Porth	24.7%
Telebaru	4.1%
Arall	5.6%

- 4.14 Er mai drwy KtN y casglwyd rhifau ffôn ar gyfer y gyfran fwyaf o gyfweiliadau, y gyfradd ymateb ar gyfer cyfweiliadau KtN yw 41.1%, sydd ond ychydig yn uwch na'r grŵp lle cafwyd rhifau drwy delebaru (36.8%). Mae cyfraddau ymateb llawer yn uwch (dros 80%) ar gyfer y rhai sy'n rhoi eu rhif ffôn drwy'r porth neu drwy gysylltu'n

uniongyrchol â'r cyfwelydd (Gweler tabl 4.3). (Mae hyn yn seiliedig ar y newidyn "pa ddull a ddefnyddiwyd i gael y rhif ffôn y gwnaethoch ei ddefnyddio i gysylltu â'r unigolyn", felly efallai bod rhif wedi'i delebaru hefyd ar gyfer rhai achosion a gofnodwyd fel porth, cysylltiad uniongyrchol neu KtN. Fodd bynnag, roedd hyn yn aflwyddiannus ac felly rhoddwyd cynnig ar ddulliau eraill. O ganlyniad, gall y gyfradd ymateb ar gyfer rhifau wedi'u telebaru ymddangos yn artiffisial o uchel.

Tabl 4.3: Cyfradd ymateb yn ôl y dull o gael rhif ffôn

Dull cysylltu	Cyfradd ymateb
Cysylltwyd â'r cyfwelydd yn uniongyrchol	83.2%
Cnocio i Wthio	41.1%
Porth	81.7%
Telebaru	36.8%

- 4.15 Rhoddwyd un mis calendr i gyfwelwyr gwblhau pob aseiniad a dychwelyd eu canlyniadau terfynol. Fodd bynnag, roedd yr union gyfnod gwaith maes a bennwyd i gyfwelydd gwblhau pob aseiniad yn amrywio, yn dibynnu ar nifer y cyfeiriadau a neilltuwyd a'r estyniadau a roddwyd i gwblhau cwotâu neu apwyntiadau a drefnwyd.
- 4.16 Lle cafwyd rhif ffôn ar gyfer cyfeiriad, gwnaeth cyfwelwyr alw ar adegau gwahanol yn ystod y dydd ac ar ddiwrnodau gwahanol yn yr wythnos, gan gynnwys ar y penwythnos a gyda'r hwyr. Dylai cyfwelwyr anelu at alw o leiaf chwe gwaith yn ystod mis y prif arolwg, gan alw o leiaf ddwywaith gyda'r hwyr yn ystod yr wythnos (ar ôl 6pm) neu ar y penwythnos cyn y gellid codio achosion yn rhai dim cyswllt. Nid oedd unrhyw derfyn uchaf ar nifer y galwadau ffôn a chafodd cyfwelwyr eu cyfarwyddo i barhau i ymweld â chyfeiriadau os oeddent yn teimlo bod cyfle o hyd i gysylltu. Pan nad oedd cyfwelwyr yn gallu galw ddigon o weithiau neu pan oeddent yn teimlo ei bod yn werth parhau â'r achos ymhellach am resymau eraill (e.e. ymatebydd yn sâl neu ar ei wyliau ar y pryd), gallai'r achos gael ei ymestyn i ddechrau'r mis gwaith maes nesaf er mwyn sicrhau bod achosion anodd eu cyrraedd yn cael eu cwmpasu ym mhoblogaeth yr arolwg. Cofnodwyd amser, dyddiad a chanlyniad yr ymweliad, a chadarnhawyd patrymau galw yn rheolaidd fel rhan o adolygiad o berfformiad y cyfwelydd gan reolwyr.

4.17 Cafodd y gwaith maes ei reoli'n ddyddiol gan dîm o Reolwyr Cyfweliadau a oedd yn gweithio gyda Rheolwr Prosiect Maes cyffredinol. Gwnaeth aelodau o dimau Maes ac Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG oruchwylio gwaith maes a monitro'r gyfradd gynnydd yn ddyddiol. Anfonwyd gwybodaeth at Lywodraeth Cymru bob pythefnos, gan gynnwys y gyfradd gynnydd gyffredinol yn erbyn targedau a dadansoddiad o'r ffigurau ar lefel ALI.

Dogfennau gwaith maes

- 4.18 Ar gyfer Ch1 2021-22, roedd gennym un fersiwn o'r holl ddeunyddiau a restrir yn Nhabl 4.4.
- 4.19 Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ionawr 2022, roedd tair fersiwn o'r deunyddiau: dwy fersiwn o'r prif arolwg ar gyfer y treial cymelliadau (un yn dweud cymhelliad o £10, a'r llall yn dweud £15), ynghyd â fersiynau ar-lein o lawer o'r deunyddiau.
- 4.20 Yr unig newidiadau o ran deunyddiau'r cymelliadau oedd swm y cymhelliad – arhosodd popeth arall yn ddigyfnewid
- 4.21 O ran y deunyddiau ar-lein, gwnaethpwyd newid sylweddol i'r rhaglythyr er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl ar gyfer dyluniad newydd yr arolwg. O ran y deunyddiau a oedd yn weddill, dim ond mân newidiadau a wnaed a oedd yn disgrifio proses yr arolwg.
- 4.22 Cafodd rhaglythyr a thaflen o dan frand Llywodraeth Cymru eu postio'n ganolog gan y pencadlys 10 diwrnod cyn dechrau mis y prif arolwg. Rhoddwyd cyflenwad o gardiau post A5 newydd i gyfwelwyr, a chafodd y rhain eu postio gan y cyfwelydd wythnos cyn ei ymweliad cyntaf â'r cyfeiriadau yn y cwotâu a neilltuwyd iddo.
- 4.23 Mae'r fersiynau diweddaraf o'r deunyddiau arolwg pwysicaf a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn ystod 2021-22 wedi'u cynnwys yn Atodiadau C i J.
- 4.24 Dangosir y set lawn o ddogfennau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn Nhabl 4.4, ynghyd â disgrifiad byr o bob dogfen.

Tabl 4.4: Deunyddiau'r arolwg

Dogfen	Disgrifiad
Rhaglythyr gan Lywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd ymlaen llaw i bob cyfeiriad a samplwyd • Yn hysbysu'r cartref bod y cyfeiriad wedi'i ddewis i gymryd rhan yn yr arolwg • Yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am yr arolwg • Dwy iaith • Yn ystod yr arbrawf cymhelliad, defnyddiwyd dwy fersiwn wahanol. Yn ystod y treial ar-lein, defnyddiwyd trydedd fersiwn.
Taflen gan Lywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd ar y cyd â'r rhaglythyr. • Yn cynnwys rhagor o fanylion am bwyntiau a drafodwyd yn y llythyr, enghreifftiau o ffeithluniau a gwybodaeth gyswllt • Dwy iaith • Yn ystod yr arbrawf cymhelliad, defnyddiwyd dwy fersiwn wahanol. Yn ystod y treial ar-lein, defnyddiwyd trydedd fersiwn.
Cerdyn post A5	<ul style="list-style-type: none"> • Anfonwyd gan gyfwelwyr cyn ymweld â'r cyfeiriad. • Yn atgoffa'r cartref y bydd cyfwelydd yn galw yn y cyfeiriad. • Dwy iaith • Yn ystod yr arbrawf cymhelliad, defnyddiwyd dwy fersiwn wahanol. Yn ystod y treial ar-lein, defnyddiwyd trydedd fersiwn.
Cerdyn KtN/Galwais heibio heddiw	<ul style="list-style-type: none"> • Gadewir yn y cyfeiriad yn ystod KtN os gelwir heibio ac nad oes unrhyw un ar gael • Dwy iaith
Cerdyn apwyntiad	<ul style="list-style-type: none"> • Gadewir yn y cyfeiriad yn ystod KtN os gwneir apwyntiad. I'w bostio yn hytrach na'i roi'n uniongyrchol i'r ymatebydd, yn unol â rheolau COVID-19 • Dwy iaith

Dogfen	Disgrifiad
Llythyr atgoffa	<ul style="list-style-type: none"> • I'w anfon gan reolwyr cyfwelwyr os nad oes unrhyw gysylltiad wedi'i wneud ag ymatebwyr. • Dwy iaith
Llythyr trosi	<ul style="list-style-type: none"> • I'w anfon gan reolwyr cyfwelwyr os bydd rhywun yn gwrthod heb i'r cyfwelydd gael llawer o gyfle i esbonio'r arolwg. • Dwy iaith
Taflen llinell gymorth	<ul style="list-style-type: none"> • I'w hanfon at unigolion nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd (tua 10% o'r sampl). (Caiff y rhai sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ddolen we i'r llinellau cymorth). • Dwy iaith
Amlen arolwg	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddir i bostio rhaglythyrau/taflenni, llythyrau trosi, taflenni llinell gymorth a slipiau cyfarch mewn perthynas â'r cymhelliad • Yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru a SYG ar y blaen

Tudalennau gwe am yr arolwg

- 4.25 Mae gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am arolygon sy'n benodol i ymatebwyr ([Am Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU](#)). Mae'r cyfeiriad gwe hwn wedi'i nodi yn neunyddiau'r arolwg fel adnodd ychwanegol o wybodaeth i ymatebwyr ac i roi sicrwydd iddynt fod yr arolwg yn ddilys.
- 4.26 Yn ogystal â hynny, mae gan SYG dudalen we a gynhelir ar wefan SYG ([Arolwg Cenedlaethol Cymru - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#)) yn benodol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, er mwyn hysbysu ymatebwyr a'r cyhoedd am rôl SYG fel y sefydliad a gomisiynwyd i gynnal yr arolwg hwn ar ran Llywodraeth Cymru.
- 4.27 Cynhelir cyfres ar wahân o dudalennau gwe wedi'u hanelu at ddefnyddwyr arolwg yn hytrach nag ymatebwyr yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU](#). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am yr arolwg, disgrifiad o ddull yr arolwg a chwmpas yr holiadur, y newyddion diweddaraf (er enghraifft, pan fydd data neu

adroddiadau newydd yn cael eu cyhoeddi), canlyniadau ac adroddiadau o'r gwaith datblygu, a gwybodaeth bellach am gysylltu data. Mae [copïau electronig](#) o ddeunyddiau'r arolwg hefyd wedi'u cynnwys ar y wefan.

4.28 Mae'r tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfweliadau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill

4.29 Cynigiwyd cyfle i bob ymatebydd gwblhau'r cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch yn Gymraeg, darparwyd holl ddogfennau'r arolwg yn Gymraeg ac yn Saesneg. At hynny, roedd nifer o gyfwelwyr yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr ar lefelau gwahanol. Cafodd cyfanswm o saith cyfwelydd (ac un rheolwr cyfwelwyr) eu hyfforddi i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg.

4.30 Rhoddwyd rhif rhadffôn ar gyfer y Llinell Ymholiadau Arolwg ar daflen yr arolwg. O fis Rhagfyr 2021 ymlaen, rhoddodd SYG is-gontract i PTI Cymru ddelio â galwadau yn Gymraeg. Pan fydd ymatebydd yn ffonio'r rhif ffôn, gofynnir iddo a hoffai siarad â rhywun yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os bydd yn dewis Cymraeg, caiff ei alwad ei drosglwyddo'n awtomatig i PTI Cymru a fydd yn delio â'r cais drwy gwblhau "ffurflen galwad yr Arolwg Cenedlaethol" a'i hanfon yn syth i Linell Ymholiadau Arolwg SYG i'w weithredu.

4.31 Gall ymatebwyr alw'r Llinell Ymholiadau i ofyn am gyfwelydd sy'n siarad Cymraeg. Cafodd ceisiadau am gyfweliad yn Gymraeg lle roedd y cyfwelydd gwreiddiol wedi cael hyfforddiant i gyfweld yn Gymraeg eu cwblhau gan yr un cyfwelydd. Fel arall, mewn achosion lle nad oedd y cyfwelydd y neilltuwyd y cyfeiriad iddo wedi cael hyfforddiant i gynnal cyfweliadau yn Gymraeg, cyfarwyddwyd y cyfwelydd i gysylltu â Swyddfa Faes SYG i gofnodi'r cais. Yna, trosglwyddwyd y cofnod ar unwaith i gyfwelydd a oedd yn siarad Cymraeg a allai gysylltu â'r ymatebydd yn uniongyrchol a threfnu i gynnal y cyfweliad ar ddiwrnod addas i'r ymatebydd.

4.32 Mewn dau achos, cwblhaodd ymatebwyr y cyfweliad mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg (Tabl 4.5). Yn yr achosion hyn, cynhaliwyd y cyfweliad gyda chymorth cyfieithydd yn y cartref (14 oed neu'n hŷn), a gyfieithodd y cwestiynau i ddewis iaith yr ymatebydd ac yna rhoi ei atebion yn ôl i'r cyfwelydd yn Saesneg.

- 4.33 Mewn sefyllfaoedd o'r fath, roedd sgript yr holiadur wedi'i llwybro'n awtomatig i hepgor nifer o gwestiynau sensitif. Roedd y rhain yn gwestiynau y teimlwyd y byddai'n amhriodol eu gofyn ym mhresenoldeb aelodau eraill o'r cartref neu gyfieithwyr (e.e. Graddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin, profiad o unigedd).

Tabl 4.5: Iaith y cyfweiliad

Iaith	Amllder	Canran
Saesneg	12,225	97.2
Cymraeg	353	2.8
Arall	2	0.0
Cyfanswm	12,580	100.0

Y broses o gysylltu â chyfeiriad a samplwyd

- 4.34 Rhoddwyd taflenni cyfeiriad i gyfwelwyr ar gyfer pob cyfeiriad yn eu cwota, gan gynnwys gwybodaeth am y cyfeiriad yn ogystal â Grid Kish gyda haprifau ar gyfer y cyfeiriad perthnasol yn eu cwota, er mwyn eu galluogi i ddewis y cartref cywir yn y cyfeiriad a samplwyd os oedd angen. At hynny, defnyddiodd cyfwelwyr “adnodd rheoli gwaith maes” ar eu ffonau symudol i gofnodi pob ymgais i alw, yn ogystal â gwybodaeth am gyfansoddiad y cartref pan gysylltwyd ag ef.
- 4.35 Roedd angen i gyfwelwyr fynd drwy'r camau canlynol naill ai wrth wneud galwad ffôn neu, yn achos KtN, wrth ymweld â chyfeiriad a samplwyd:
- 4.35.1 **Cadarnhau'r cyfeiriad:** Y dasg gyntaf i gyfwelwyr oedd cadarnhau'r cyfeiriad.
- 4.35.1.1 Os gwneir hyn dros y ffôn, cadarnheir hyn gyda'r unigolyn ar y ffôn wrth gyflwyno'r arolwg.
- 4.35.1.2 Os gwneir hyn yn ystod KtN, gall y cyfwelydd gadarnhau'r cyfeiriad ei hun cyn cysylltu, er mwyn sicrhau ei fod yn ymweld â'r cyfeiriad cywir ac yna gadarnhau hyn gyda rhywun sy'n byw yn y cyfeiriad wrth gyflwyno'r arolwg.
- 4.35.2 **Cadarnhau bod y cyfeiriad yn gymwys:** Ar gyfer pob cyfeiriad, roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau bod modd ei olrhain, ei fod yn gyfeiriad preswyl a'i fod yn brif breswylfa.

- 4.35.3 **Cofnodi nifer yr unedau annedd:** Roedd angen i gyfwelwyr gadarnhau nifer yr unedau annedd yn y cyfeiriad. Yn y rhan fwyaf o achosion un annedd ydoedd; os oedd mwy nag un (pan oedd cyfeiriad wedi'i rannu'n fflatiau fel arfer) gofynnwyd iddynt hysbysu'r pencadlys, a fyddai'n diweddarau ac yn ailddyroddi'r cwota yn unol â hynny gydag un o'r cyfeiriadau wedi'i ddewis ar hap.
- 4.35.4 **Cofnodi nifer y cartrefi:** Mewn nifer fach o achosion efallai fod mwy nag un cartref yn byw mewn uned annedd sengl. Mae SYG yn defnyddio'r diffiniad safonol o gartref o Gyfrifiad Cymru a Lloegr, sy'n diffinio cartref fel a ganlyn: *'grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu lolfa neu ardal fwyta'*. Mewn achosion lle roedd mwy nag un cartref mewn cyfeiriad a samplwyd, cyfarwyddwyd cyfwelwyr i ddefnyddio Grid Kish er mwyn cadarnhau'r cartref cywir i'w ddewis. Cynghorwyd cyfwelwyr i ailgadarnhau eu dewis o gartref gyda'r pencadlys, yn enwedig os oedd y broses ddewis yn aneglur (e.e. os nad oedd gan yr unedau rifau).
- 4.35.5 **Dewis yr ymatebydd o'r cartref:** Ar ôl dewis yr uned annedd a'r cartref, roedd angen i'r cyfwelydd ddewis yr ymatebydd o'r cartref. Gwnaethpwyd hyn yn ôl yr unigolyn â'r pen-blwydd nesaf yn y cartref. Os nad oedd yr aelod o'r cartref yn gwybod pen-blwyddi pawb, gofynnwyd iddo am y pen-blwydd nesaf yr oedd yn gwybod amdano. Mewn cartrefi a oedd yn cynnwys un oedolyn 16 oed neu'n hŷn yn unig, nid oedd angen dewis unigolyn.
- 4.35.6 **Cael caniatâd rhiant:** Mewn achosion lle roedd yr ymatebydd a ddewiswyd yn 16 neu 17 oed ac yn byw gyda rhiant/gwarcheidwad, roedd angen i'r cyfwelydd gael caniatâd rhiant cyn cynnal cyfweliad. Er mwyn gwneud hyn roedd angen iddo gofnodi enw'r unigolyn a oedd yn rhoi caniatâd a'i berthynas â'r ymatebydd yn holiadur CAPI. Nid oedd angen llofnod i ategu hyn.
- 4.35.7 **Cofnodi dewis iaith cyfweliad yr ymatebydd:** Cadarnhaodd y cyfwelydd dros y ffôn neu ar garreg y drws (yn achos KtN) beth oedd dewis iaith yr ymatebydd ar gyfer y cyfweliad. Ar ddechrau'r cyfweliad nododd y cyfwelydd ddewis iaith yn yr holiadur CAPI, er mwyn sicrhau bod gweddill yr holiadur yn ymddangos yn yr iaith gywir (Cymraeg neu Saesneg). Ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, roedd yr

holiadur yn arddangos yn Saesneg, ond fe'i cyflawnwyd gyda chymorth cyfieithydd (gweler adran 3.16).

Canlyniadau samplau

- 4.36 Cyfrifir y cyfraddau ymateb y cyfeirir atynt drwyddi draw fel a ganlyn:
- Cyfradd ymateb = cyfweliadau a sicrhawyd / (cyfanswm y cyfeiriadau – achosion anghymwys)*
- 4.37 Mae'r mynegai yn darparu ffracsiwn y cyfeiriadau cymwys a arweiniodd at gyfweliad llwyddiannus.
- 4.38 Cyfeiriadau anghymwys yw cyfeiriadau na fyddent yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn ond yn cynnwys cyfeiriadau a oedd yn wag, nad oeddent yn rhai preswyl neu nad oeddent wedi'u meddiannu fel prif breswylfan (e.e. cartrefi gwyliau) a'r rhai a godiwyd gan gyfwelwyr fel rhai anhygyrch neu nad oeddent yn gallu dod o hyd iddynt. Nid yw'n cynnwys cyfeiriadau lle mae cyfwelwyr wedi ceisio galw nifer o weithiau ond lle na fu cyswllt, oni bai bod tystiolaeth glir bod y cyfeiriad yn wag neu nad yw wedi'i feddiannu fel prif breswylfan (e.e. drwy gadarnhau hyn gyda chymdogion). Roedd 10.6% o gyfeiriadau yn anghymwys yn gyffredinol.
- 4.39 Arweiniodd cyfanswm o 37.7% o'r sampl a ddyroddwyd (41.6% o'r sampl gymwys) at gyfweliadau llawn (Tabl 4.6). Y canlyniad amlaf ond un oedd penderfyniad i wrthod cael cyfweliad, gan gynnwys torri apwyntiadau, a oedd yn cyfrif am fwy na 26.4% o'r sampl a ddyroddwyd (29.1% o'r sampl gymwys). Roedd diffyg cyswllt yn cyfrif am tua 21.7% o'r sampl a ddyroddwyd (24.0% o'r sampl gymwys).
- 4.40 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y treial ar-lein a'r treial cymelliadau. Dengys Tabl 4.6 a Thabl 4.7 ganlyniadau samplau i'r adran dros y ffôn ar gyfer pob cyfeiriad a samplwyd, ynghyd â dadansoddiad yn ôl grŵp treialu.
- 4.41 Ceir gostyngiad ystadegol sylweddol yn y gyfradd ymateb rhwng y grŵp treialu cymhelliad amodol o £15 a'r grŵp treialu cymhelliad amodol o £10. Mae hyn yn brawf bod y cymhelliad ychwanegol o £5 o fuddiol wrth gynyddu'r gyfradd ymateb i'r arolwg dros y ffôn.

4.42 Cafwyd gostyngiad ystadegol sylweddol hefyd yn y gyfradd ymateb i'r adran dros y ffôn ar gyfer y rhai a wahoddwyd i gymryd rhan yn y treial ar-lein, o gymharu â'r rhai y gofynnwyd iddynt gwblhau'r adran dros y ffôn yn unig (lle y cynigiwyd cymhelliad o £15 i'r naill a'r llall). Mae'r gostyngiad yn y gyfradd ymateb yn anffodus. Fodd bynnag, rhaid iddo gael ei bwysu a'i fesur yng nghyd-destun y manteision sy'n gysylltiedig â chasglu'r data ychwanegol ar yr adran ar-lein, na fyddem wedi gallu eu casglu fel arall. Dengys Tabl 4.7 y cyfraddau canlyniadau samplau lefel uchel ar lefel awdurdod lleol wedi'u dadansoddi yn ôl y grwpiau treialu gwahanol. Mae cyfraddau ymateb, gwrthod a dim cyswllt yn amrywio yn ôl ALI a grŵp treialu. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod maint sampl y grŵp treialu ar-lein yn llawer llai nag ar gyfer y ddau grŵp arall ac felly dylid ystyried cyfraddau'r grŵp ar-lein yn ofalus.

Tabl 4.6: Canlyniadau samplau i'r holiadur dros y ffôn ar lefel genedlaethol yn ôl grŵp treialu

Cod Canlyniad	Cymhelliad Amodol o £10			Cymhelliad Amodol o £15			Grŵp Treialu Ar-lein*			Cyfanswm		
	Cyfanswm y Cyfeiriadau	% y sampl a ddyroddwyd	% a oedd yn gymwys	Cyfanswm y Cyfeiriadau	% y sampl a ddyroddwyd	% a oedd yn gymwys	Cyfanswm y Cyfeiriadau	% y sampl a ddyroddwyd	% a oedd yn gymwys	Cyfanswm y Cyfeiriadau	% y sampl a ddyroddwyd	% a oedd yn gymwys
Cyfweliad llawn	3,431	38.1%	42.1%	6,926	37.7%	41.7%	2,194	37.3%	40.7%	12,551	37.7%	41.6%
Cyfweliad rhannol	5	0.1%	0.1%	19	0.1%	0.1%	5	0.1%	0.1%	29	0.1%	0.1%
Dim cyswllt ag unrhyw un yn y cyfeiriad	2,108	23.4%	25.8%	3,386	18.4%	20.4%	1,092	18.6%	20.3%	6,586	19.8%	21.8%
Gwnaed cyswllt, ond nid ag unrhyw aelod o'r annedd/cartref a samplwyd	42	0.5%	0.5%	90	0.5%	0.5%	31	0.5%	0.6%	163	0.5%	0.5%
Gwnaed cyswllt yn yr annedd/cartref a samplwyd, ond nid ag unrhyw breswlydd cyfrifol	30	0.3%	0.4%	51	0.3%	0.3%	14	0.2%	0.3%	95	0.3%	0.3%
Gwnaed cyswllt ag unigolyn, ond nid yr unigolyn a samplwyd	116	1.3%	1.4%	198	1.1%	1.2%	71	1.2%	1.3%	385	1.2%	1.3%
I'r swyddfa cyn i'r cyfwelydd gysylltu	103	1.1%	1.3%	166	0.9%	1.0%	58	1.0%	1.1%	327	1.0%	1.1%
Gwrthod rhoi gwybodaeth am yr uned samplu – gwrthodwyd rhoi gwybodaeth am nifer yr anheddau/cartrefi yn y cyfeiriad	0	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%	0	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%
Gwrthod rhoi gwybodaeth am yr uned samplu – gwrthodwyd rhoi gwybodaeth am unigolion yn y cartref	9	0.1%	0.1%	14	0.1%	0.1%	4	0.1%	0.1%	27	0.1%	0.1%

I'r cyfwelydd cyn i unrhyw gyfweiliad ddechrau – gan yr ymatebydd	1,391	15.5%	17.1%	3,612	19.7%	21.7%	1,237	21.0%	23.0%	6,240	18.8%	20.7%
I'r cyfwelydd cyn i unrhyw gyfweiliad ddechrau – gan ddirprwy	207	2.3%	2.5%	435	2.4%	2.6%	126	2.1%	2.3%	768	2.3%	2.5%
Gwrthod rhoi gwybodaeth am yr uned samplu – gwrthodwyd rhoi mynediad i'r safle	0	0.0%	0.0%	0	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%
I'r cyfwelydd yn ystod y cyfweiliad	7	0.1%	0.1%	31	0.2%	0.2%	9	0.2%	0.2%	47	0.1%	0.2%
Torri apwyntiad, dim ailgysylltiad	301	3.3%	3.7%	803	4.4%	4.8%	262	4.5%	4.9%	1,366	4.1%	4.5%
Cyfweiliad llawn wedi'i sicrhau ond yr ymatebydd wedi gofyn i'r data gael eu dileu	0	0.0%	0.0%	0	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%
Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg – Hysbyswyd gan y Pencadlys	2	0.0%	0.0%	3	0.0%	0.0%	2	0.0%	0.0%	7	0.0%	0.0%
Yn sâl gartref yn ystod cyfnod yr arolwg – Hysbyswyd y cyfwelydd	68	0.8%	0.8%	177	1.0%	1.1%	61	1.0%	1.1%	306	0.9%	1.0%
I ffwrdd/yn yr ysbyty drwy gydol y cyfnod gwaith maes – Hysbyswyd gan y Pencadlys	1	0.0%	0.0%	2	0.0%	0.0%	0	0.0%	0.0%	3	0.0%	0.0%
I ffwrdd/yn yr ysbyty drwy gyfnod y cyfnod gwaith maes – Hysbyswyd y cyfwelydd	43	0.5%	0.5%	102	0.6%	0.6%	31	0.5%	0.6%	176	0.5%	0.6%
Math arall o ddiffyg ymateb – Anallu/anghymwys yn gorfforol neu'n feddyliol – Hysbyswyd gan y Pencadlys	5	0.1%	0.1%	5	0.0%	0.0%	1	0.0%	0.0%	11	0.0%	0.0%
Anallu/anghymwys yn gorfforol neu'n feddyliol – Hysbyswyd y cyfwelydd	122	1.4%	1.5%	268	1.5%	1.6%	99	1.7%	1.8%	489	1.5%	1.6%
Cyfweiliad wedi'i ddirwyn i ben oherwydd anawsterau iaith	12	0.1%	0.1%	33	0.2%	0.2%	2	0.0%	0.0%	47	0.1%	0.2%
Cyfweiliad wedi'i ddirwyn i ben oherwydd anawsterau deall	4	0.0%	0.0%	3	0.0%	0.0%	0	0.0%	0.0%	7	0.0%	0.0%
Cyfweiliad wedi'i ddirwyn i ben oherwydd anawsterau eraill	12	0.1%	0.1%	9	0.0%	0.1%	4	0.1%	0.1%	25	0.1%	0.1%
Cyfweiliad coll	3	0.0%	0.0%	4	0.0%	0.0%	3	0.1%	0.1%	10	0.0%	0.0%
Math arall o ddiffyg ymateb	109	1.2%	1.3%	206	1.1%	1.2%	61	1.0%	1.1%	376	1.1%	1.2%

Dyrodwyd ond nis ceisiwyd	4	0.0%	0.0%	3	0.0%	0.0%	2	0.0%	0.0%	9	0.0%	0.0%
Anhygyrch	4	0.0%	0.0%	8	0.0%	0.0%	3	0.1%	0.1%	15	0.0%	0.0%
Methu dod o hyd i'r cyfeiriad	7	0.1%	0.1%	25	0.1%	0.2%	2	0.0%	0.0%	34	0.1%	0.1%
Ni wyddys a yw'r cyfeiriad yn un preswyl oherwydd diffyg cyswllt	3	0.0%	0.0%	9	0.0%	0.1%	0	0.0%	0.0%	12	0.0%	0.0%
Ni wyddys a oes unrhyw breswylwyr cymwys oherwydd diffyg cyswllt	7	0.1%	0.1%	32	0.2%	0.2%	9	0.2%	0.2%	48	0.1%	0.2%
Heb ei hadeiladu eto/yn cael ei hadeiladu	7	0.1%		21	0.1%		6	0.1%		34	0.1%	
Wedi'i dymchwel/segur	27	0.3%		47	0.3%		10	0.2%		84	0.3%	
Gwag	426	4.7%		898	4.9%		257	4.4%		1,581	4.8%	
Cyfeiriad nad yw'n breswyl	157	1.7%		349	1.9%		79	1.3%		585	1.8%	
Cyfeiriad wedi'i feddiannu, ond heb gartref preswyl	176	2.0%		367	2.0%		124	2.1%		667	2.0%	
Sefydliad cymunedol	50	0.6%		63	0.3%		17	0.3%		130	0.4%	
Wedi cyfarwyddo i beidio â samplu yn y cyfeiriad	2	0.0%		11	0.1%		3	0.1%		16	0.0%	
Cyfanswm	9,001	100.0%		18,377	100.0%		5,881	100.0%		33,259	100.0%	

* Mae ar-lein yn cyfeirio at ddata ffôn y rhai sydd yn y grŵp treialu ar-lein

Tabl 4.7: Cyfraddau canlyniadau samplau lefel uchel i'r holiadur dros y ffôn ar lefel awdurdod lleol a grŵp treialu

Awdurdod Lleol	Cymhelliad amodol o £10				Cymhelliad amodol o £15				Grŵp treialu ar-lein*				Cyfanswm			
	Cyfradd ymateb	Cyfradd gwrthod	Cyfradd dim cyswilt	Cyfradd anghymwystera	Cyfradd ymateb	Cyfradd gwrthod	Cyfradd dim cyswilt	Cyfradd anghymwystera	Cyfradd ymateb	Cyfradd gwrthod	Cyfradd dim cyswilt	Cyfradd anghymwystera	Cyfradd ymateb	Cyfradd gwrthod	Cyfradd dim cyswilt	Cyfradd anghymwystera
Blaenau Gwent	38.5%	48.2%	12.2%	7.6%	41.9%	35.3%	20.8%	8.7%	40.1%	44.1%	14.3%	9.5%	39.3%	40.4%	17.5%	8.5%
Pen-y-bont ar Ogwr	40.2%	32.6%	25.3%	7.1%	43.6%	25.3%	28.8%	7.6%	46.4%	28.0%	23.8%	7.0%	44.0%	27.7%	27.2%	7.3%
Caerffili	40.4%	36.8%	21.4%	6.2%	43.4%	32.4%	22.3%	7.8%	35.2%	37.7%	25.7%	5.3%	40.5%	34.6%	22.8%	6.9%
Caerdydd	39.8%	35.6%	22.1%	10.0%	38.8%	32.3%	25.7%	11.4%	41.4%	36.3%	20.0%	10.2%	39.6%	33.9%	23.8%	10.8%
Sir Gâr	46.6%	35.6%	16.2%	9.0%	54.9%	29.2%	14.3%	9.7%	50.8%	33.1%	15.0%	6.7%	52.9%	31.5%	15.1%	9.0%
Ceredigion	35.1%	35.6%	24.3%	16.7%	38.8%	28.5%	28.0%	14.2%	39.5%	32.1%	24.7%	12.9%	39.1%	31.1%	26.6%	14.7%
Conwy	41.3%	40.5%	15.8%	13.2%	41.5%	35.0%	20.8%	11.6%	37.7%	39.3%	20.8%	9.4%	40.3%	37.2%	19.7%	11.6%
Sir Ddinbych	38.8%	41.9%	17.8%	8.2%	37.2%	29.7%	30.8%	7.2%	41.8%	36.3%	20.3%	7.6%	38.6%	34.3%	25.3%	7.5%
Sir y Fflint	42.2%	42.2%	14.8%	5.4%	37.0%	32.3%	29.3%	4.5%	34.7%	47.5%	16.8%	5.1%	37.1%	37.9%	23.2%	4.9%
Gwynedd	51.9%	28.8%	14.6%	24.0%	48.2%	31.6%	14.7%	27.4%	48.8%	32.4%	14.4%	23.4%	50.5%	31.0%	14.8%	25.8%
Ynys Môn	36.1%	45.0%	14.7%	22.2%	46.0%	32.9%	17.0%	19.1%	45.9%	41.5%	9.4%	25.4%	43.3%	37.7%	15.2%	21.0%
Merthyr Tudful	29.4%	37.6%	31.2%	5.4%	33.6%	35.3%	28.3%	8.9%	34.4%	35.9%	27.4%	7.5%	32.6%	36.1%	29.3%	7.6%
Sir Fynwy	48.6%	28.7%	21.2%	6.7%	48.5%	24.2%	25.1%	8.0%	47.6%	32.7%	18.8%	4.5%	47.8%	27.0%	23.1%	7.0%
Castell-nedd Port Talbot	46.3%	35.8%	16.3%	8.7%	49.7%	27.8%	20.7%	8.3%	46.6%	32.6%	19.0%	8.5%	48.3%	30.8%	19.4%	8.4%
Casnewydd	42.7%	36.2%	19.4%	8.1%	43.7%	38.7%	16.5%	6.4%	39.6%	40.5%	18.4%	7.1%	43.7%	38.3%	17.7%	7.0%
Sir Benfro	55.0%	30.0%	12.7%	15.0%	49.3%	34.1%	13.8%	17.1%	44.2%	37.6%	15.0%	17.5%	49.5%	33.5%	13.8%	16.6%
Powys	35.5%	30.5%	30.3%	11.0%	41.6%	26.8%	27.6%	12.4%	38.3%	28.7%	29.8%	9.5%	39.6%	28.3%	29.1%	11.5%

Rhondda Cynon Taf	36.7%	33.1%	26.7%	11.6%	39.0%	30.9%	26.7%	11.4%	37.6%	32.3%	27.5%	8.7%	38.9%	31.7%	27.1%	11.0%
Abertawe	49.1%	32.1%	16.4%	12.5%	45.5%	31.7%	20.4%	10.5%	43.1%	38.7%	16.5%	9.4%	46.7%	33.0%	18.8%	10.9%
Torfaen	40.5%	30.0%	26.0%	11.6%	48.4%	27.6%	22.1%	7.7%	47.3%	32.6%	18.4%	8.5%	47.5%	29.1%	22.8%	8.8%
Bro Morgannwg	43.2%	36.8%	18.7%	6.3%	47.5%	38.3%	13.2%	7.3%	42.0%	43.2%	14.0%	5.6%	46.4%	38.7%	15.0%	6.7%
Wrecsam	42.6%	32.9%	22.8%	6.9%	39.8%	31.9%	25.5%	10.1%	42.5%	35.6%	20.7%	5.6%	41.1%	32.9%	24.1%	8.4%
Cymru	41.3%	35.2%	21.0%	10.6%	43.1%	31.3%	22.8%	10.9%	41.3%	35.7%	20.7%	9.6%	42.5%	33.2%	22.2%	10.6%

** Mae ar-lein yn cyfeirio at ddata ffôn y rhai sydd yn y grŵp treialu ar-lein*

Sampl a sicrhawyd

4.43 Sicrhawyd cyfanswm o 12,576 o gyfweiliadau yn 2021-22. Rhoddir dadansoddiad o gyfweiliadau rhwng pob chwarter yn 2021-22 yn Nhabl 4.8.

Tabl 4.8: Cyfweiliadau a sicrhawyd fesul chwarter

Chwarter	Dyddiadau cyfweld	Cyfweiliadau a sicrhawyd	Cyfweiliadau cronnoI a sicrhawyd
1	Mis Ebrill '21 i fis Mehefin '21	3,436	3,436
2	Mis Gorffennaf '21 i fis Medi '21	3,045	6,481
3	Mis Hydref '21 i fis Rhagfyr '21	3,193	9,674
4	Mis Ionawr '22 i fis Mawrth '22*	2,906	12,580
CYFANSWM		12,580	12,580

Tabl 4.9: Cyfradd ymateb a gyflawnwyd yn ôl ALI (yn nhrefn y gyfradd ymateb)

Awdurdod Lleol	Cyfanswm y cyfeiriadau	Targed cyfweliadau	Cyfweliadau a gwblhawyd	Cyfeiriadau anghymwys (r) ¹³	Cyfradd ymateb (%) (r) ¹⁴
Sir Gaerfyrddin	1,563	660	741	135	51.9
Sir Benfro	1,279	477	535	209	50.0
Gwynedd	1,287	441	471	320	48.7
Castell-nedd Port Talbot	1,292	543	571	105	48.1
Sir Fynwy	967	405	435	53	47.6
Abertawe	2,217	900	910	234	45.9
Bro Morgannwg	1,083	443	459	63	45.0
Torfaen	826	347	348	38	44.2
Pen-y-bont ar Ogwr	1,280	474	512	85	42.8
Ynys Môn	1,094	362	373	212	42.3
Casnewydd	1,405	521	559	73	42.0
Caerffili	1,641	576	627	93	40.5
Blaenau Gwent	998	347	371	79	40.4
Conwy	1,152	400	415	120	40.2
Wrecsam	1,228	432	462	74	40.0
Caerdydd	3,305	1,110	1,166	303	38.8
Powys	3,589	1,240	1,244	380	38.8
Sir y Fflint	1,502	506	544	66	37.9
Ceredigion	1,079	347	349	157	37.9
Sir Ddinbych	1,008	347	359	56	37.7
Rhondda Cynon Taf	2,282	782	774	205	37.3
Merthyr Tudful	1,182	347	355	86	32.4
CYFANSWM (Cenedlaethol)	33,259	12,007	12,580	3,146	41.8

4.44 Roedd y cyfraddau ymateb yn amrywio o 32.4% (Merthyr Tudful) i 51.9% (Sir Gaerfyrddin) (r)¹⁵. Roedd nifer y cyfweliadau a sicrhawyd yn gyson â'r targed neu'n uwch na'r targed ym mhob Awdurdod Lleol ond un. Sicrhaodd Rhondda Cynon Taf 774 o gyfweliadau, dim ond 8 islaw'r targed blynyddol o 782. (r)¹⁶

¹³ 26 Ionawr 2024: diwygio nifer y cyfeiriadau anghymwys a adroddwyd yn flaenorol ym mhob awdurdod lleol yn sgil gwall prosesu data

¹⁴ 26 Ionawr 2024: diwygio'r gyfradd ymateb a adroddwyd yn flaenorol yn ôl awdurdod lleol yn dilyn diwygio nifer y cyfeiriadau anghymwys

¹⁵ 26 Ionawr 2024: diwygio'r cyfraddau ymateb a adroddwyd yn flaenorol ar gyfer Merthyr Tudful (32.5% yn flaenorol) a Sir Gaerfyrddin (52.1% yn flaenorol) yn dilyn diwygio nifer y cyfeiriadau anghymwys

¹⁶ 26 Ionawr 2024: diwygio nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf a adroddwyd yn flaenorol (773 yn flaenorol)

4.45 Cafwyd cyfrannau mawr o gyfeiriadau anghymwys yng Ngwynedd (24.9%), Ynys Môn (19.4%), Sir Benfro (16.3%) a Cheredigion (14.6%). Cofnodwyd llai o amrywiadau mewn ardaloedd eraill ac yn Sir y Fflint y cofnodwyd y gyfradd anghymwys isaf (4.4%). (r)¹⁷

Camau i unioni'r ymateb isel

4.46 Gwnaeth SYG fonitro hynt perfformiad yr ymateb i'r arolwg yn ofalus drwy gydol y cyfnod gwaith maes a defnyddiodd mesurau rheoli perfformiad llym iawn i sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni. Mae cyfweiliadau a sicrhawyd wedi cynyddu bob blwyddyn o 11,354 yn 2017-18, 11,922 yn 2018-19 a 12,393 yn 2019-20. Cafwyd 12,576 o gyfweiliadau a sicrhawyd yn 2021-22, sef cynnydd arall yn nifer flynyddol y cyfweiliadau a sicrhawyd.

Canlyniadau'r Treial Ar-lein

4.47 Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn y treial ar-lein gwblhau'r holiadur ar-lein ar ôl yr holiadur dros y ffôn. Aeth 89.8% o'r rhai a gwblhaodd yr holiadur dros y ffôn ymlaen i gwblhau'r holiadur ar-lein. Mae hyn yn arwain at gyfradd ymateb i'r ddwy adran o 37.1%.

4.48 Ar gyfer ymatebwyr nad oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd/nad oedd ganddynt sgiliau rhyngrwyd, roedd opsiwn i gwblhau'r adran ar-lein dros y ffôn gyda chyfwelydd. Cafodd 19.5% o holiaduron ar-lein eu cwblhau yn y ffordd hon.

4.49 Gofynnwyd i ymatebwyr gwblhau'r adran ar-lein o fewn tri diwrnod. Dengys Tabl 4.10 nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r adran dros y ffôn a'r adran ar-lein

¹⁷ 26 Ionawr 2024: diwygio % y cyfeiriadau anghymwys a adroddwyd yn flaenorol yng Ngwynedd (25.8% yn flaenorol), Ynys Môn (21.0% yn flaenorol), Sir Benfro (16.6% yn flaenorol) a Sir y Fflint (4.9% yn flaenorol) yn sgil gwall prosesu data

Tabl 4.10 Nifer y diwrnodau rhwng cwblhau'r adran dros y ffôn a'r adran ar-lein

Diwrnodau	Canran	Cronnol %
0	48.0%	48.0%
1	11.4%	59.4%
2	5.3%	64.7%
3	3.3%	68.0%
4	3.0%	71.1%
5	2.4%	73.4%
6+	15.8%	89.2%
Diffyg ymateb	10.8%	100%

4.50 Y gyfradd ymateb ymhlith y grŵp cymhelliad amodol o £15, cyfweiliad dros y ffôn yn unig, oedd 43.5%, y gyfradd ymateb ymhlith y grŵp cymhelliad amodol o £15, cyfweiliad dros y ffôn ac wedyn ar-lein, oedd 41.3%. Canfu'r treial ymchwil fod gwahaniaeth ystadegol sylweddol yng nghyfraddau ymateb y grŵp arbrofi o gymharu â'r grŵp rheoli, sy'n awgrymu bod yr elfen ar-lein ychwanegol yn cael effaith ystadegol sylweddol ar gyfraddau ymateb i'r adran dros y ffôn (gwerth-p 0.013 (3 phwynt degol), cyfwng hyder o 95% (0.5%, 3.9%)). Mae'n bwysig nodi, oherwydd cyfraddau gadael cyn gorffen, fod gostyngiad pellach yn y gyfradd ymateb wrth ystyried cyfraddau ymateb dros y ffôn a chyfraddau ymateb ar-lein gyda'i gilydd (37.1%).

Treial ymchwil i asesu effaith symiau gwahanol o gymhelliad amodol ar yr ymateb

4.51 Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022, cynhaliwyd treial ymchwil i ystyried a fyddai gwahaniaeth o £5 mewn cymelliadau amodol (£10 o gymharu â £15) yn cael effaith ar gyfraddau ymateb. Cynhaliwyd y treial fel lled-arbrawf, lle y dewiswyd bob yn ail gyfeiriad yn y sampl gymwys (h.y. y rhai nad oeddent yn rhan o'r treial ar-lein eisoes) i fod yn rhan o'r grŵp rheoli (£15). Gweddill y sampl oedd y grŵp triniaeth (£10). Cyfanswm maint y samplau ar gyfer y grwpiau oedd 9,188/9,189. Sicrhawyd 3,547 o gyfweiliadau gyda'r grŵp cymhelliad £15 yn ystod y cyfnod hwn, o gymharu â 3,379 ar gyfer y grŵp cymhelliad £10.

- 4.52 Derbyniodd ymatebwyr a chyfwelwyr ddwy fersiwn o unrhyw ddeunydd a oedd yn sôn am swm y cymhelliad. Roedd y deunyddiau yr un fath heblaw am swm y cymhelliad a nodwyd.
- 4.53 Y gyfradd ymateb ymhlith y grŵp cymhelliad amodol £15 oedd 43.5%, a'r gyfradd ymateb ymhlith y grŵp cymhelliad amodol £10 oedd 41.3%. Canfu'r treial ymchwil fod gwahaniaeth ystadegol sylweddol yng nghyfraddau ymateb y grŵp arbrofi o gymharu â'r grŵp rheoli, sy'n awgrymu bod y £5 ychwanegol yn cael effaith ystadegol sylweddol ar gynyddu cyfraddau ymateb (gwerth-p o 0.003 (3 phwynt degol), cyfwng hyder o 95% (0.7%, 3.8%)).

5. Prosesu ac allbynnau data

- 5.1 Mae'r bennod hon yn cwmpasu'r agweddau ar yr arolwg sy'n ymwneud â phrosesu data a chyflawni. Mae hyn yn cynnwys y prosesau codio a golygu data, llunio newidynnau deilliedig, y broses gwirio data a manylion yr allbynnau a roddwyd i Lywodraeth Cymru.

Troi achosion cyfweiliadau yn set ddata

- 5.2 Pan fydd cyfwelwyr yn cwblhau cyfweiliad dros y ffôn, trosglwyddir yr achos o bell drwy gysylltiad diogel â Swyddfa Faes SYG. Yna, caiff yr achos hwn ei dderbyn gan y System Rheoli Gwrthrychau sy'n coladu achosion unigol yn ffeil data Blaise. Yna caiff ffeiliau data Blaise (BDB) eu troi o fformat Blaise yn set ddata SPSS ynghyd â ffeil .sps meta ategol drwy becyn VB6 SYG, a ddyluniwyd yn fewnol, a elwir yn 'DataDeliveryExpress'.
- 5.3 Ar gyfer casglu data ar-lein, cynhaliwyd yr holiadur gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) ac mae'n defnyddio adnodd casglu Blaise 5. Mae system NISRA yn defnyddio 14 o weinyddion gwe sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn parc gweinyddion ac sy'n cael eu rheoli gan weinydd ychwanegol sy'n gweithredu fel rheolwr y parc gweinyddion. Mae'r holl weinyddion hyn yn bodoli mewn DMZ. Mae'r gweinydd olaf yn y parc, sy'n dal yr holl ddata, yn eistedd y tu ôl i waliau tân ychwanegol mewn amgylchedd diogel. Gweinyddion rhithwir yw'r gweinyddion gwe. Maent yn rhedeg Windows Server 2012 ac mae pob un ohonynt yn gwneud copïau wrth gefn fel bod modd adfer pethau'n gyflym os bydd angen. Mae'r system yn gweithredu system ddirprwyol gildroadol sy'n cyfeirio defnyddwyr

at weinyddion gwe mewn ffordd sy'n rhannu'r llwyth rhwng pob un o'r 14 o weinyddion. Mae'r system hefyd yn defnyddio meddalwedd rheoli gweinyddion Nagios, sydd wedi'i gosod i hysbysu tîm Blaise NIRSA am unrhyw broblemau gydag unrhyw un o'r 14 o weinyddion yn y parc, gan leihau unrhyw amser segur.

- 5.4 Rhoddir dolen URL i'r ymatebydd gael mynediad i'r holiadur ar-lein, gan ddefnyddio Cod Mynediad Unigryw diogel 12 digid. Yn ystod y broses gwblhau, caiff data'r ymatebydd eu storio yng nghronfa ddata Blaise 5 (.bdbx), a gaiff eu lawrlwytho i system SYG yn ddyddiol. Yna caiff ffeiliau data Blaise (BDB) eu troi o fformat Blaise yn set ddata SPSS ynghyd â ffeil .sps meta ategol drwy becyn VB6 SYG, a ddyluniwyd yn fewnol, a elwir yn 'DataDeliveryExpress'.
- 5.5 Caiff setiau data SPSS newydd ar gyfer data dros y ffôn a data ar-lein eu llunio'n ddyddiol a'u cyflwyno i Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG.

Codio a golygu data

- 5.6 Lle y bo'n berthnasol, ymgorfforwyd gwiriadau rhesymeg ac ysgogiadau i gyfwelwyr yn y sgript er mwyn sicrhau bod yr atebion a roddwyd yn gyson ac yn synhwyrol. Yn ogystal â'r gwiriadau hyn a ymgorfforwyd yn yr holiadur, cynhaliwyd nifer o wiriadau (sawl gwaith yr wythnos fel arfer) gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG ar setiau data a dderbyniwyd er mwyn tynnu sylw at unrhyw anghysondebau posibl. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod cyfwelwyr wedi dewis yr unigolyn cywir yn y cyfeiriad a samplwyd i'w gyfweld, a bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn yn seiliedig ar lwybro.
- 5.7 Cynhaliwyd gwaith golygu ôl-waith maes hefyd gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG ar y data er mwyn cyfrif am unrhyw anghysondebau mewn ymatebion nas cwmpaswyd gan y gwiriadau a oedd yn rhan o'r holiadur. Er enghraifft, roedd y cwestiwn a ofynnodd i ymatebwyr ddewis y grŵp ethnig roeddent yn perthyn iddo yn cynnwys sawl cod 'Arall (nodwch)', wedi'u rhannu yn ôl grwpiau ethnig gwahanol (e.e. 'Unrhyw gefndir Asiaidd arall'). Os oedd yr ymateb gair am air a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod yr ymatebydd yn perthyn i gategori 'Arall' gwahanol, cawsant eu hailgodio yn unol â hynny. Roedd gwiriadau data hefyd yn cynnwys edrych ar y nodiadau yr oedd cyfwelwyr wedi'u hychwanegu at yr holiadur yn egluro a/neu'n tynnu sylw at unrhyw ymatebion anarferol.

Newidynnau deilliedig

- 5.8 Rhoddwyd rhestr o newidynnau deilliedig angenrheidiol i SYG gan Lywodraeth Cymru. Newidynnau a luniwyd o ddata eraill ydynt, a oedd naill ai'n cael eu casglu yn ystod y cyfweiliad neu eu ceisio o ffynonellau eraill (h.y. data daearyddiaeth a chyfrifiad). Mae'r rhai a luniwyd o ddata a gasglwyd drwy'r cyfweiliad naill ai'n adlewyrchu un o newidynnau'r holiadur gwreiddiol ond lle y caiff ymatebion eu grwpio mewn llai o gategoriâu (e.e. grwpiau oedran) neu'n adlewyrchu nifer o newidynnau'r holiadur sy'n dangos bod gan ymatebydd nodwedd benodol (e.e. newidynnau deilliedig sy'n gysylltiedig ag iechyd) neu ei fod yn dangos ymddygiadau penodol (e.e. newidynnau deilliedig sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gweithgaredd). Ceir y rhestr lawn o newidynnau deilliedig yn Atodiad L.

Allbynnau data

- 5.9 Cyflwynwyd set ddata gynnar heb ei fformatio i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021. Roedd y ffeil yn cynnwys data crai y 250 cyfweiliad cyntaf a sicrhawyd er mwyn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau ansawdd llwybro'r holiadur.
- 5.10 Rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylebau penodol ar gyfer y setiau data yr oedd eu hangen i SYG. Roedd y rhain yn nodi'r fformat a'r labelu angenrheidiol ar gyfer pob un o newidynnau'r holiadur a phob newidyn deilliedig a oedd wedi'i gynnwys ym mhob set ddata. Lluniodd SYG newidynnau pwysoli ar gyfer ffeiliau ar lefel unigol a chartref. Ceir manylion am y broses bwysoli a'r newidynnau pwysoli ar y setiau data yn adran 6.
- 5.11 Yn seiliedig ar y fanyleb, cyflwynodd SYG y ffeiliau data SPSS canlynol i Lywodraeth Cymru:
- Ffeil cartref 'Pob person', yn seiliedig ar ymatebion i'r grid enwadur a gwybodaeth ddemograffig sylfaenol am y cartref cyfan.
 - Ffeil lefel ymatebydd yn seiliedig ar ymatebion i'r holiadur ac yn cynnwys data cyfweiliadau ar gyfer yr holl ymatebwyr.
 - Ffeil sampl ddiennw, gyda chanlyniadau gwaith maes (e.e. cyfwelwyd, gwrthododd) a data geo-ddemograffig ar gyfer pob cyfeiriad.
 - Ffeil nad oedd yn ddiennw, gyda data daearyddol ar gyfer pob cartref a ymatebodd.
 - Ffeil ailgysylltu, gyda manylion cyfeiriadau pob ymatebydd a gytunodd y gellid ailgysylltu ag ef.

5.12 Cyflwynwyd y ffeil ymatebwyr i Lywodraeth Cymru fesul tipyn drwy gydol y flwyddyn er mwyn caniatáu iddi gael ei gwirio cyn iddi gael ei chymeradwyo'n derfynol. Yn gyntaf, cyflwynwyd ffeil data interim yn cynnwys data'r arolwg am y tri mis cyntaf, ac yna cyflwynwyd rhagor ar ôl deg mis (fel rhan o'r broses o gyflawni'r trial ar-lein). Yn olaf, caiff data ar gyfer y flwyddyn lawn o 12 mis, a gymeradwywyd ar ddiwedd mis Mai 2022, eu dadansoddi a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022. Profwyd pob iteriad o'r data gan Dîm Ymchwil Arolwg Cenedlaethol SYG yn gyntaf er mwyn sicrhau ansawdd a chynhaliwyd gwiriadau eraill ar gynnwys a fformat y setiau data gan Lywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Argaeledd data

5.13 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymuned ymchwil ehangach weld a defnyddio data'r arolwg i'w dadansoddi ymhellach, caiff set ddata ar lefel cyfranogwr a chartref y tynnwyd manylion personol yn briodol ohoni ei chynnal yn Archif Data'r DU¹⁸ a chronfa ddata SAIL¹⁹.

5.14 Yn sgil newidiadau i'r arolwg oherwydd y pandemig, mae'n bwysig ystyried sut y gall y newidiadau fod wedi effeithio ar y canlyniadau ac, mewn llawer o achosion, ni ddylid cymharu'r canlyniadau â rhifynnau blaenorol o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Lluniodd Llywodraeth Cymru adroddiad sy'n ystyried [sut y gallai'r canlyniadau fod wedi effeithio ar ymddygiadau oedolion a ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd](#).

6. Pwysoli, diffyg ymateb a dadansoddi

6.1 Mae'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd i gyfrifo pwysoliadau a'u cymhwyso at ddata 2021-22 yn adlewyrchu protocolau safonol a ddefnyddir i bwysoli arolygon cymdeithasol ac mae'n unol ag arferion gorau rhyngwladol cyfredol.

6.2 Cyfrifwyd pwysoliadau dyluniad sy'n adlewyrchu tebygolrwydd dewis (ar gyfer cartrefi ac unigolion), cyn cael eu graddnodi yn ôl poblogaeth amcangyfrifedig

¹⁸ [UK Data Service](#)

¹⁹ [Home - SAIL Databank](#)

Cymru yn 2020 o amcanestyniadau o'r boblogaeth ar sail 2018²⁰, a'u haddasu i gynrychioli'r boblogaeth breswyl²¹.

- 6.3 Ar gyfer 2021-22, gwnaethpwyd mân addasiad i'r fethodoleg bwysoli er mwyn rhoi cyfrif am achosion lle nad yw ymatebwyr wedi nodi eu bod yn "Wryw" neu'n "Fenyw", ond yn hytrach wedi nodi'n ddigymell "Ddim yn gwybod" neu "Byddai'n well gen i beidio â dweud".
- 6.4 Mae'r strategaeth bwysoli sylfaenol yn gyson â'r dulliau a ddefnyddiwyd i bwysoli'r Arolygon Cenedlaethol blaenorol o 2016-17 i 2020-21, prawf maes ar raddfa fawr yn 2015²² ac Arolwg Iechyd Cymru gynt²³.
- 6.5 Llunnir pob pwysoliad ar ddau gam:
1. Llunio pwysoliad dyluniad (i wneud iawn am wahaniaethau wrth samplu tebygolrwydd).
 2. Graddnodi pwysoliad (i wneud iawn am wahaniaethau rhwng proffil y sampl a phroffil hysbys y boblogaeth).
- 6.6 Gan y gall diffyg ymateb ar lefel cartref ac unigolyn achosi tuedd yn y canlyniadau, mae graddnodi pwysoliadau hefyd yn ffordd o addasu ar gyfer y tebygolrwydd o beidio â sicrhau cyfweiliad. Dyma'r un dull a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Pwysoliadau dyluniad

- 6.7 Y cam cyntaf yn y broses bwysoli yw cyfrifo pwysoliad dyluniad ar gyfer y cartref ac unigolion o fewn cartrefi, sy'n adlewyrchu'r tebygolrwydd o gael eu dewis.
- 6.8 Cyfrifir y pwysoliad fel a ganlyn:

$$\text{Household design weight} = \frac{N_h}{n_h}$$

²⁰ Graddnodir pwysoliadau ar gyfer 201-22 yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer 2018 [Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#).

²¹ Mae "poblogaeth breswyl" yn golygu pobl sy'n byw mewn cartrefi preifat ledled Cymru. Nid yw'n cynnwys pobl sy'n byw mewn llety sefydliadol (e.e. cartrefi gofal, neuaddau preswyl, carchardai, gwestai a llety gwely a brechwast, a chanolfannau'r fyddin). Ni chaiff pobl mewn llety sefydliadol eu cynnwys mewn arolygon cymdeithasol fel arfer.

²² Hanson T., Sullivan S., *National Survey for Wales Field Test, Technical Report*, Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 19/2016 [Arolwg Cenedlaethol Cymru: gwaith datblygu | LLYW.CYMRU](#)

²³ Doyle M., Brown L., Cabrera Alvarez P., Brown L., "Arolwg Iechyd Cymru", Adroddiad Technegol 2015, ar gael yn: [\[ARCHIVED CONTENT\] \(nationalarchives.gov.uk\)](#)

Ile mai n_h yw maint y sampl (nifer y cyfeiriadau) a ddyrannwyd o fewn stratwm h a lle mai N_h yw maint y boblogaeth (nifer y cyfeiriadau ar y Ffeil Cyfeiriadau Cod Post) o fewn stratwm h

6.9 Yn y rhan fwyaf o achosion, lluoswm nifer yr anheddau yn y cyfeiriad a nifer y cartrefi yn yr annedd fydd un yn y naill achos a'r llall. Pan fo angen cafodd niferoedd eu capio i leihau amrywioldeb yn y pwysoliadau dyluniad ac felly yn y pwysoliadau a raddnodwyd. Caiff lefel cap o'r fath ei llywio gan ddadansoddiad o'r data a thystiolaeth o arolygon eraill.

